Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y Coleg, Merthyr Tudful
# Ynysfach
# Merthyr Tudful
# CF48 1AR

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/03/2017**

## Cyd-destun

Mae'r coleg wedi ei leoli ar ddau gampws canol tref - sef Ynysfach a Redhouse - gyda thua 2,800 o ddysgwyr y mae dros 2,000 ohonynt yn ddysgwyr amser llawn. Ym Medi 2013, daeth yr awdurdod lleol yn drydyddol a chymerodd y coleg ei garfan gyntaf o ddysgwyr trydyddol. Cwblhaodd y garfan hon eu hastudiaethau yn haf 2015. Mae gan y coleg dros 200 o staff ac mae'n cynnig ystod o raglenni galwedigaethol a Safon Uwch.

Mae'r coleg yn is-gwmni i Brifysgol De Cymru, gyda bwrdd cyfarwyddwyr a benodwyd gan y Brifysgol. Mae trosiant y coleg dros £14 miliwn.

Mae'r coleg wedi ei leoli yn yr awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru, gyda chyfanswm poblogaeth o 55,530. Mae hyn wedi gostwng 4.5% er 1996, o gymharu â thwf o 2.6% ar gyfer Cymru.

Mae'r coleg yn gwasanaethu ardal sy'n wynebu heriau sylweddol o ran amddifadedd. Mae cyfraddau diweithdra lleol yn uchel ac mae incymau'n isel. Daw tri deg pump y cant o ddysgwyr y coleg o'r ddwy ddengradd fwyaf difreintiedig yng Nghymru, ar sail data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Daw 33% arall o'r drydedd a'r bedwaredd ddengradd fwyaf difreintiedig, sy'n golygu mai hwn yw'r coleg sydd â'r proffil amddifadedd uchaf yng Nghymru.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y coleg yn ddigonol oherwydd:

- Mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau ychydig islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol; mae tueddiadau mewn cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus yn gyson neu'n dangos ychydig bach o gynnydd ar y cyfan dros y tair blynedd ddiwethaf
- Mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn llwyddo ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr o ardaloedd tebyg, neu ychydig yn is
- Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da
- Mae'r coleg yn darparu cwricwlwm eang, sy'n bodloni anghenion dysgwyr a'r gymuned leol
- Mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda dysgwyr
- Mae holl adeiladau a chyfleusterau'r coleg yn darparu mannau dysgu modern a chyfforddus o safon uchel iawn i ddysgwyr

Fodd bynnag:

- Nid yw targedau llawer o ddysgwyr wedi eu hysgrifennu'n ddigon clir i'w helpu i gymryd y camau dysgu bach sydd eu hangen arnynt
- Yn y mwyafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio ystod ddigon eang o weithgareddau i herio dysgwyr o bob gallu ac nid yw cyflymdra gwersi'n bodloni anghenion unigol dysgwyr yn ddigon da
- Mewn llawer o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn unol â'u gallu
- Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dwyieithog wedi ei datblygu'n ddigonol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth, gyda chymorth gan yr uwch arweinyddiaeth, yn hyrwyddo cyfeiriad clir ar gyfer y coleg, ac maent yn gweithio'n galed i sefydlu diwylliant o gyflawni
- Mae bron pob un o'r staff yn hynod gefnogol o'r coleg, ac mae morâl y staff yn uchel ar y cyfan, ac wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf

- Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn darparu lefel briodol o her i bennaeth a rheolwyr y coleg; mae'r cyfarwyddwyr yn dangos ystod eang o fedrau ac yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi gwaith y coleg
- Fodd bynnag, nid yw hunanasesu'n drylwyr o ran nodi meysydd i'w gwella, a chyfyngedig yw'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â llawer o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol
- Mae gan y coleg bartneriaethau cryf iawn, y mae'n eu defnyddio'n dda i wella cyfleoedd a phrofiadau dysgwyr
- Mae'r coleg wedi gweithio'n dda iawn gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol i sefydlu a datblygu darpariaeth drydyddol ym Merthyr Tudful
- Mae systemau rheolaeth ariannol y coleg yn effeithlon ac effeithiol, ac, yn benodol, maent yn gefnogol i ddatblygu cynaliadwy

## Argymhellion

A1 Gwella'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus arni ar draws yr holl feysydd dysgu

A2 Gwella a hyrwyddo'r cyfleoedd i staff a dysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg

A3 Gwneud yn siŵr bod yr holl dargedau ar gyfer dysgwyr yn benodol, yn heriol a mesuradwy

A4 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu ar draws y coleg

A5 Gwella trylwyredd hunanasesu, gan gynnwys defnyddio ystod ehangach o ddata, i nodi a monitro meysydd i'w gwella yn fwy effeithiol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y coleg yn ymgorffori camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd, sy'n dangos yn glir sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn. Bydd tîm o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r coleg ar ôl rhyw flwyddyn i fonitro cynnydd.

Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau ychydig islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2014-2015, ar gyfer cyrsiau sylweddol (y rheiny sy'n cynnwys 150 neu fwy o oriau dysgu dan arweiniad), cwblhaodd dysgwyr yn llwyddiannus ar gyfradd o 76% o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol, sef 80%. Ar gyfer yr holl ddeilliannau cymhwyster, y gyfradd oedd 83% o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 86%. Mae tueddiadau mewn cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus yn gyson neu'n dangos ychydig bach o gynnydd cyffredinol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Ar draws y coleg yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol, fel diplomâu BTEC, yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau ychydig islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau hyn yn amrywio gormod rhwng meysydd dysgu ac mae lleiafrif o feysydd dysgu yn dangos tueddiadau o gyfraddau llwyddiant islaw'r cyfartaledd. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau galwedigaethol yn llwyddiannus arnynt ar lefelau gwahanol yn rhy amrywiol hefyd. Mae dysgwyr sy'n dilyn diplomâu lefel 3, er enghraifft, yn llwyddo ar gyfraddau uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol, ond mae'r rheiny sy'n dilyn diplomâu lefel 1 a 2 yn tanberfformio.

Mae cyfran dda o ddysgwyr yn mynd ymlaen i addysg uwch, trwy raddau sylfaen a gynigir yn y coleg, ac i ystod o brifysgolion. Mae dysgwyr sy'n dechrau ar gyrsiau lefel 1 neu lefel 2 yn y coleg yn gwneud cynnydd addas ymlaen i'r lefel astudio nesaf.

Dim ond ers 2013 y mae darpariaeth Safon Uwch wedi cael ei chyflwyno yn y coleg, felly nid oes data tueddiadau tymor hir ar gael. Dros y cyfnod 2013-2014 i 2014-2015, mae'r cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus (dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs ac yn llwyddo yn eu harholiadau fel ei gilydd) ar gyfer dysgwyr Safon Uwch wedi gwella'n fawr, er eu bod yn parhau islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae data nas cyhoeddwyd y coleg ar gyfer 2015-2016 yn dangos gwelliant parhaus. Mae dysgwyr Safon Uwch sy'n cwblhau eu rhaglenni yn llwyddo yn eu harholiadau ac yn cyflawni graddau da. Fodd bynnag, mae'r gyfradd llwyddiant gyffredinol ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yn rhy amrywiol ar draws cyrsiau.

Daw cyfran uchel o ddysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch o ardaloedd difreintiedig. Yn 2015-2016, roedd tua chwarter o ddysgwyr Safon Uwch yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Llwyddodd bron pob un o'r rhain i gwblhau eu cyrsiau.

At ei gilydd, mae dysgwyr gwrywaidd a benywaidd, dysgwyr o wahanol gefndiroedd ethnig a dysgwyr ag anableddau yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau sy'n debyg i gyfartaleddau'r coleg. Mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn llwyddo ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr o ardaloedd tebyg, neu ychydig yn is. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc, yn gwneud yn dda ac yn llwyddo ar gyfraddau sy'n well na'r cyfartaledd.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn y coleg yn gwneud cynnydd cadarn ar eu cyrsiau. Ar gyrsiau galwedigaethol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol perthnasol yn dda ac mae'r mwyafrif ohonynt yn elwa ar brofiad gwaith defnyddiol. Mewn sesiynau ymarferol, er enghraifft mewn adeiladu, mae mwyafrif y dysgwyr yn defnyddio ystod eang o offer llaw yn gywir ac yn gweithio yn unol â safonau diwydiant. Mae dysgwyr ar gyrsiau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ymgysylltu'n dda â'u heriau medrau ac yn creu arddangosfeydd ysgogol i annog trafodaeth am faterion byd-eang a thestunau gwerth chweil eraill. Er enghraifft, mae dysgwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal arolygon bwyta'n iach o'u cyd-fyfyrwyr sy'n arwain at drafodaethau defnyddiol gyda'u cyfoedion am ddiet ac ymarfer corff.

Fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau ymarferol ar draws y coleg, nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ymarferol i safon ddigon uchel nac yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Mewn rhai dosbarthiadau, ni chaiff dysgwyr o bob gallu eu herio'n ddigonol, ac mewn ychydig iawn o achosion, mae dysgwyr yn rhy oddefgar ac nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu.

Mewn Safon Uwch, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn y dosbarth ac yn dangos gafael gadarn o'u maes pwnc. Defnyddiant dermau technegol yn rhwydd i drafod eu meysydd pwnc. Mae dysgwyr yn cadw ffeiliau trefnus ac yn ymfalchïo yn eu gwaith.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn llwyddiannus mewn cyfathrebu a chymhwyso rhif ar gyfraddau sy'n agos at y cymharydd cenedlaethol. Mae tueddiadau mewn cyfraddau llwyddiant ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn dangos gwelliant dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn astudio medrau hanfodol ar lefel sy'n briodol i'w cymhwyster ac mae dysgwyr ar gyrsiau Bagloriaeth Cymru yn ennill eu cymwysterau ar gyfraddau da. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel sy'n briodol i'w hasesiad cychwynnol ac i'w dysgu blaenorol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu mewn llythrennedd a rhifedd, ac i osod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw targedau llawer o ddysgwyr yn ddigon byr a chraff i'w galluogi i fynd i'r afael â chamau dysgu bach. Mae hyn yn golygu na all dysgwyr asesu eu cynnydd yn hawdd. Ni allant gysylltu'r targedau hyn â'u dosbarthiadau medrau nac ymarfer y medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth briodol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr Cymraeg yn unig mewn rhai meysydd sy'n cwblhau gweithgareddau dysgu yn Gymraeg, ac ychydig o gynnydd a wna'r rhan fwyaf o ddysgwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg o ran datblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn y Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n dda ac yn gwybod ble i fynd os bydd angen cymorth arnynt. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwisgo bathodynnau adnabod yn y coleg ac yn deall eu diben o ran eu cadw'n ddiogel. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi eu coleg yn fawr. Maent yn mynegi lefelau uchel o foddhad yn amgylchedd y coleg ac yn gwerthfawrogi a pharchu'r cyfleusterau sydd ar gael.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, mae dysgwyr yn cyrraedd gwersi'n hwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn huawdl a hyderus, ac yn mwynhau bywyd y coleg. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda o gwmpas y coleg. Yn y dosbarth, maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol a pharchus gyda'u hathrawon a'u cyfoedion.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn ac yn ymateb yn dda iddi. Caiff dysgwyr eu hethol gan eu cyfoedion a'u tiwtoriaid fel cynrychiolwyr mewn cyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn lle maent yn dylanwadu'n weithredol ar y penderfyniadau a wneir yn y coleg. Er enghraifft, aethpwyd i'r afael yn gyflym trwy gydol y broses hon â cheisiadau dysgwyr am liniaduron ychwanegol i'w defnyddio mewn ystafell addysgu lle nad oedd cyfrifiaduron.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn ymgymryd â chyfleoedd profiad gwaith trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mewn meysydd galwedigaethol, mae cyfle dysgwyr i gael profiad gwaith defnyddiol braidd yn amrywiol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn elwa ar gyfleoedd diwylliannol a phrofiad gwaith gwerth chweil yn Yr Almaen, sy'n galluogi iddynt brofi iaith a diwylliant arall ac ennill profiad ehangach o arferion gweithio gwahanol.

Mae llawer o ddysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fuddiol o fwyta'n iach ac maent yn cynnal ffordd iach o fyw trwy unedau ar y rhan fwyaf o raglenni astudio. Maent hefyd yn gwerthfawrogi'r dewisiadau bwyta'n iach a gynigir gan y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o iechyd a diogelwch yn eu gwaith a'u meysydd dysgu.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol defnyddiol a gweithgareddau eraill yn gysylltiedig â gwaith, yn y coleg a thu hwnt. Er enghraifft, mae rhai dysgwyr mathemateg, gwyddoniaeth ac iechyd a gofal cymdeithasol yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn ogystal â'u cyfle ar gyfer dilyniant a chyflogaeth trwy gymryd rhan yn academi gofal iechyd y coleg. O fewn diwydiannau creadigol, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol fel dylunio ac adeiladu murluniau. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen helaeth i gyfoethogi chwaraeon, ac yn elwa ar y rhaglen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg yn darparu cwricwlwm eang, sy'n bodloni anghenion dysgwyr a'r gymuned leol. Mae llawer o feysydd dysgu yn cynnig cyfle i elwa ar ddysgu o lefel cyn-mynediad i lefel 6. Trwy ei aelodaeth o Brifysgol De Cymru, mae'r coleg wedi creu llwybrau llwyddiannus i ddysgwyr symud ymlaen i addysg uwch mewn nifer sylweddol o feysydd dysgu.

Mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n dda ac mae'n ymateb yn dda i anghenion dysgwyr, sy'n cael eu nodi trwy gyfnod pontio hynod effeithiol ar gyfer dysgwyr o ysgolion lleol. Yn benodol, mae ychwanegu cyrsiau peirianneg ac electroneg yn ddiweddar wedi bodloni angen dysgwyr am ddewis gwell o bynciau gwyddoniaeth, technoleg a mathemateg (STEM). Mae cwricwlwm y coleg yn galluogi dysgwyr yn ddefnyddiol i symud rhwng dysgu yn y gwaith, dysgu rhan-amser a dysgu amser llawn, gan gefnogi anghenion dysgwyr na fyddent efallai mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fel arall. Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o wybodaeth y farchnad lafur ar lefel strategol, i fodloni anghenion cyflogwyr lleol a rhanbarthol.

Caiff dysgwyr ddewis eang o gyrsiau Safon Uwch. Caiff rhai dysgwyr mwy abl a thalentog eu cynorthwyo'n dda gan 'Glwb Gwych' y coleg a phrosiect rhanbarthol 'Seren', sy'n cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr gyflawni eu potensial academaidd a mynd ymlaen i brifysgol.

Mae'r coleg wedi cyflwyno strategaeth medrau newydd lle caiff bron pob un o'r dysgwyr eu hasesu ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Mae'r coleg yn cynnig ystod briodol o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau trwy Sgiliau Hanfodol Cymru a chymwysterau TGAU, gan gynnwys cymorth medrau astudio. Nid yw arweinwyr ac athrawon yn rhoi digon o ystyriaeth yn gyson i gyflawniad blaenorol dysgwyr unigol wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer eu cynnydd mewn medrau. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni datblygu medrau nad ydynt yn ddigon heriol ac felly nid ydynt yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent. Mae paneli cymorth is-adrannol yn cyfeirio dysgwyr at gymorth medrau priodol. Mae hon yn fenter gymharol newydd ac mae'n rhy gynnar i fesur ei heffaith.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac fe gânt gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae gan y coleg ystod ddefnyddiol o weithgareddau i ddatblygu medrau menter dysgwyr a chynorthwyo dysgwyr â syniadau busnes. Mae dysgwyr mewn llawer o feysydd dysgu yn elwa ar ddarparu cyfleoedd gwaith ac astudio gwerthfawr dramor trwy 'brosiect Erasmus'.

Mae nifer o fentrau dwyieithog yn dechrau cael eu datblygu i ddathlu diwylliant Cymru ac annog dysgu Cymraeg. Nid yw darpariaeth y coleg ar gyfer datblygu medrau dwyieithog ar gyfer staff a dysgwyr wedi ei datblygu'n ddigonol.

### Addysgu: Digonol

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth gyfoes a brwdfrydedd dros eu pynciau. Mewn pynciau galwedigaethol, mae llawer o athrawon yn defnyddio eu profiad diwydiannol yn dda i ddatblygu medrau ymarferol a dealltwriaeth dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda dysgwyr. Maent yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i alluogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i wneud cynnydd da.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau dysgwyr dros gyfnod. Maent yn rhannu nodau ac amcanion clir gyda dysgwyr ar ddechrau gwersi

ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd defnyddiol i ymarfer cwestiynau yn gysylltiedig â meini prawf asesu. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio ystod ddigon eang o weithgareddau i herio dysgwyr o bob gallu ac nid yw cyflymdra gwersi yn bodloni anghenion unigol dysgwyr yn ddigon da. O ganlyniad, mewn rhai gwersi, mae llawer o ddysgwyr yn rhy oddefgar.

Mewn gwersi ymarferol, mae mwyafrif yr athrawon yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn briodol. Fodd bynnag, mewn gormod o wersi ar draws y coleg, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn unol â'u gallu.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi cyfeiriedig yn briodol i ennyn diddordeb dysgwyr a magu eu hyder. Mewn gwersi Safon Uwch, mae llawer o athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i ymestyn ymatebion dysgwyr ac annog rhesymu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio holi'n ddigon da i herio pob dysgwr.

Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd, ac mae mwyafrif ohonynt yn rhoi adborth adeiladol i nodi sut gall dysgwyr wella eu gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae adborth yn rhy gyffredinol ac nid yw'n ddigon trylwyr i ddysgwyr allu olrhain eu cynnydd. Lleiafrif o athrawon yn unig sy'n gwneud defnydd cyson o arweiniad y coleg ar farcio ar gyfer llythrennedd.

Ar draws pynciau academaidd a galwedigaethol, nid yw'r coleg yn defnyddio cyflawniadau blaenorol dysgwyr yn gyson i helpu i osod graddau targed sy'n ddigon heriol. Ni chaiff targedau llythrennedd a rhifedd dysgwyr eu monitro a'u holrhain yn ddigon effeithiol ar draws y coleg. Mae hyn yn arwain at dargedau llythrennedd a rhifedd amhriodol ar gyfer lleiafrif o ddysgwyr.

Mae gan y coleg arferion sefydledig i nodi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae'r broses hon yn arwain at fesurau ymyrraeth effeithiol ac adolygiadau cynnydd rheolaidd ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae gan y coleg drefniadau priodol i adrodd ar gynnydd dysgwyr i rieni a gofalwyr ddwywaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r coleg yn hyrwyddo lles a ffyrdd iach o fyw yn dda trwy raglen diwtorial gynhwysfawr, darparu dewisiadau bwyd iach, defnyddio siaradwyr allanol, arddangosfeydd, adnoddau ar-lein a digwyddiadau thema.

Mae gan y coleg bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer delio ag ymddygiad dysgwyr, gan gynnwys strategaeth iechyd a lles a pholisi urddas wrth astudio. Fodd bynnag, nid yw sawl polisi allweddol yn hygyrch trwy wefan neu fewnrwyd y coleg ac mae ymwybyddiaeth dysgwyr o'r dogfennau allweddol hyn yn rhy amrywiol.

Ceir ychydig iawn o achosion o aflonyddwch neu fwlio ac mae tiwtoriaid a rheolwyr is-adrannol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o'r fath yn gyflym. Fodd bynnag, nid yw achosion sy'n cael eu datrys yn anffurfiol bob amser yn cael eu cofnodi o fewn data monitro i hysbysu rheolwyr.

Mae gwybodaeth ac arweiniad diduedd ar gael i bob dysgwr. Mae cysylltiadau â llawer o ysgolion lleol wedi gwella ers cyflwyno darpariaeth drydyddol ym Merthyr Tudful ac mae trefniadau pontio ar gyfer disgyblion yn effeithiol.

Mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae meithrinfa'r coleg a'r gronfa ariannol wrth gefn yn effeithiol o ran cefnogi cyfranogiad ehangach. Rhoddir cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd angen trefniadau arbennig ar gyfer arholiadau ac asesiadau. Mae tiwtoriaid medrau astudio gwerthfawr, cymorth ar iechyd rhywiol ac iechyd cyffredinol, a gwasanaethau cwnsela a chaplaniaeth ar gael i ddysgwyr hefyd.

Mae'r coleg wedi sefydlu partneriaethau cryf a buddiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed. Er enghraifft, trwy'r rhaglen leol 'ysbrydoli i gyflogi', mae anogwyr dysgu yn darparu cymorth un-i-un ar gyfer y dysgwyr hynny sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o addysg neu hyfforddiant.

Mae pob un o'r dysgwyr a'r staff yn cario cardiau adnabod sy'n cysylltu â mynediad i ystafell electronig a systemau monitro presenoldeb. Maent hefyd yn cario cerdyn cyswllt cyntaf defnyddiol sy'n cynnwys manylion cyswllt staff allweddol ar gyfer diogelu a chymorth dysgwyr.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu, gan gynnwys atal radicaleiddio ac eithafiaeth, yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg wedi ymrwymo'n gryf i gynhwysiant. Mae'n darparu amgylchedd croesawgar a gofalgar sy'n sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn teimlo'n ddiogel. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr ag ystod eang o anghenion yn datblygu eu hyder i ofyn am gymorth, sy'n galluogi iddynt gwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus.

Mae'r coleg yn hyrwyddo ethos cadarnhaol o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae cynllun cydraddoldeb strategol y coleg yn nodi amcanion perthnasol, ac mae'r coleg yn monitro deilliannau'r rhain yn rheolaidd. Caiff dysgwyr gyfleoedd priodol i ehangu eu hymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy'r cwricwlwm yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau fel Gŵyl Pentref Byd-eang. Mae'r coleg yn gwneud defnydd effeithiol o sgriniau arddangos cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth am ystod eang o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth y tu allan i'w cyrsiau astudio wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae holl adeiladau a chyfleusterau'r coleg yn darparu mannau dysgu modern a chyfforddus o safon uchel iawn ar gyfer dysgwyr. Mae'r prif adeilad, a agorwyd yn 2013 yn gyfleuster croesawgar ar gyfer addysg yn y gymuned, y mae staff a myfyrwyr yn falch iawn ohono. Mewn ardaloedd cymunedol, mae arddangosfeydd o gyflawniadau a gwaith celf dysgwyr yn hyrwyddo dyhead ac yn dathlu llwyddiant.

Mae'r coleg yn parhau i ddatblygu pob safle i sicrhau bod dysgwyr yn cael safon gyson uchel o adeiladau. Er enghraifft, mae adeilad Redhouse yn darparu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer dysgu i fyfyrwyr cerddoriaeth, y cyfryngau a'r celfyddydau perfformiadol. Mae gweithdai adeiladu a pheirianneg y coleg yn ffurfio amgylchedd gwaith o safon diwydiant sy'n realistig ac yn cynnwys adnoddau da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r coleg yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gyd-destun y dysgwyr a'r rhwystrau y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn. Mae'r pennaeth, gyda chymorth yr uwch arweinwyr, yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer y coleg sy'n cefnogi datganiad cenhadaeth y coleg, sef 'codi dyheadau a mwyhau potensial', yn dda. Mae datganiad cenhadaeth y coleg yn adlewyrchu gweledigaeth y coleg yn briodol ac fe gaiff saith gwerth y coleg eu cefnogi'n dda gan dri maes blaenoriaeth i ysgogi gwelliant.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n galed i sefydlu diwylliant o gyflawni. Mae bron pob un o'r staff yn hynod gefnogol o'r coleg. Mae morâl staff yn uchel ar y cyfan ac mae wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygiad staff, ac, o ganlyniad, mae staff yn mynychu ystod eang o raglenni a digwyddiadau datblygiad proffesiynol buddiol. Mae uwch arweinwyr yn mynd i'r afael â materion rheoli perfformiad yn dda.

Mae llawer o arweinwyr ar draws y coleg yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r coleg yn cynnal ystod briodol o gyfarfodydd uwch reolwyr a rheolwyr is-adrannol. Mae'r rhain yn arwain at gofnodion priodol y mae'r coleg yn eu dosbarthu'n berthnasol ac mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr fod cyfathrebu ar draws y coleg yn gyson. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, ceir diffyg eglurder rhwng uwch reolwyr a rheolwyr is-adrannol o ran datblygu dull trylwyr a chyson o arfarnu cynnydd. Mae hyn yn rhwystro gallu rheolwyr i fonitro ac olrhain perfformiad a gwelliant cyffredinol y coleg mewn rhai meysydd.

Mae'r coleg yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel agenda gweddnewid Llywodraeth Cymru. Mae'n addasu arfer yn effeithiol i gefnogi'r gymuned leol a'r ardaloedd cyfagos. Llwyddodd yr uwch dîm rheoli y newid i addysg drydyddol yn eithriadol o dda, gan sicrhau cyfnod pontio didrafferth ar gyfer dysgwyr.

Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn darparu lefel briodol o her i bennaeth a rheolwyr y coleg. Mae'r cyfarwyddwyr yn meddu ar ystod eang o fedrau a gwybodaeth drylwyr am addysg a hyfforddiant ôl-16. Defnyddiant y medrau hyn yn dda i gefnogi gwaith uwch arweinwyr y coleg. Mae'r pennaeth yn gwneud yn siŵr bod y cyfarwyddwyr yn cael eu hysbysu'n dda am waith y coleg ac mae hyn yn gwella eu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r coleg a'r ymdrech i wella safonau a deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Er y barnwyd bod deilliannau'n ddigonol, mae arweinyddiaeth yn y coleg yn dda ar y cyfan. Mae'n cyfrannu'n dda at ddatblygiadau addysg ym Merthyr Tudful trwy'r newid i ddarpariaeth drydyddol a'i bartneriaethau cryf, y mae'n eu defnyddio'n dda i wella cyfleoedd a phrofiadau dysgwyr.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y coleg system ansawdd gadarn ar bob lefel, o dîm cyrsiau i'r coleg cyfan. Mae byrddau adolygu ansawdd is-adrannol defnyddiol yn rhan annatod o'r system hon lle mae timau cyrsiau, ar y cyd â rheolwyr canol ac uwch reolwyr, yn adolygu cynnydd dysgwyr unigol. Maent yn gweithredu'n brydlon i gynorthwyo dysgwyr a allai fod mewn perygl o beidio â gallu cwblhau eu rhaglen astudio.

Mae rheolwyr y coleg yn craffu ar ddata gweithredol yn rheolaidd, fel data presenoldeb a chyfraddau tynnu'n ôl. Mae hyn yn galluogi iddynt weithredu'n gyflym i ddelio â meysydd sy'n tanberfformio. Mae penaethiaid isadrannau yn gweithio'n dda gyda staff a thimau cyrsiau i osod cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer gwella. Caiff y cynlluniau hyn eu cytuno gydag aelodau o'r tîm gweithredol a'u monitro'n rheolaidd. Mae ymyriadau llwyddiannus mewn rhai meysydd, er enghraifft cyrsiau mewn adeiladu a gwallt a harddwch, wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyrsiau unigol.

Fodd bynnag, at ei gilydd, mae hunanasesu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n nodi meysydd gwella'n ddigon clir. Mewn llawer o achosion, nid yw cynlluniau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau hunanasesu yn ddigon penodol i helpu i ysgogi gwelliannau. Yn yr hunanasesiad coleg cyfan ac mewn llawer o'r meysydd dysgu a arolygwyd, mae barnau a ddyfarnwyd gan y coleg yn rhy hael ac nid ydynt yn cyd-fynd â barnau'r tîm arolygu.

Mae rheolwyr yn defnyddio data meincnodi cenedlaethol a lleol wrth lunio hunanasesiadau. Fodd bynnag, maent yn defnyddio'r data hwn yn rhy ddetholus ac yn anghyson ar draws y coleg, ac o ganlyniad, nid yw rheolwyr ar lefel uwch ac isadran bob amser yn nodi'n ddigon effeithiol y meysydd sydd angen eu gwella fwyaf. Nid yw'r duedd o wella o ran canlyniadau'r coleg cyfan dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gryf.

Mae'r coleg wedi cyflwyno prosesau arsylwi addysgu newydd yn ddiweddar, sy'n cynnwys arsylwadau cymheiriaid a theithiau dysgu. Caiff teithiau dysgu eu cynnal gan diwtoriaid, rheolwyr canol ac uwch arweinwyr ac aelodau o fwrdd y cyfarwyddwyr. Cyflwynwyd polisi craffu ar waith, marcio ac adborth i ddysgwyr i sicrhau cysondeb marcio ar draws y coleg. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y prosesau hyn ar wella ansawdd yr addysgu.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda cholegau lleol eraill i rannu arfer dda, ac mae aelodau o golegau eraill yn aelodau o'r pwyllgor ansawdd a ffurfiwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y pwyllgor hwn ar wella deilliannau dysgwyr.

Caiff canlyniadau'r holl arolygon dysgwyr eu dadansoddi'n ganolog a'u darparu i reolwyr ar bob lefel. Caiff camau gweithredu sy'n deillio o arolygon eu trafod yn ystod cyfarfodydd ansawdd a rhoddir adborth prydlon i ddysgwyr ar y modd y cafodd eu safbwyntiau eu hystyried.

Cyfyngedig fu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â llawer o'r argymhellion yn sgil arolygiad blaenorol Estyn yn 2010, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â thargedau medrau, addysgu ac asesu, defnydd o'r Gymraeg mewn cyrsiau a hunanasesu.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol**

Mae gan y coleg bartneriaethau cryf iawn, y mae'n eu defnyddio'n dda i wella cyfleoedd a phrofiadau dysgwyr. Mae wedi gweithio'n dda iawn gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol i sefydlu a datblygu darpariaeth drydyddol, gyda chyfleuster addysg newydd ym Merthyr Tudful.

Mae'r coleg wedi bod yn hynod effeithiol o ran cryfhau perthnasoedd ag ysgolion lleol i oresgyn yr heriau yn sgil symud i addysg drydyddol. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn croesawu cymorth staff y coleg i ehangu ymwybyddiaeth dysgwyr o gyfleoedd dilyniant ôl-16. Mae'r gwelliant hwn ym mynediad y coleg i ddarpar ddysgwyr hefyd wedi ymestyn i lawer o ysgolion cynradd, gan alluogi eu dysgwyr i ddysgu am y coleg o oedran cynnar. Mae perthnasoedd gwell wedi galluogi ysgolion i rannu gwybodaeth â'r coleg, i helpu'r ddau sefydliad i gynllunio cyfnod pontio dysgwyr yn fwy effeithiol. Ceir enghreifftiau da o'r coleg yn cynorthwyo ysgolion i gyflwyno rhaglenni ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed, er enghraifft mewn peirianneg. Mae'n cynnal digwyddiadau ar gyfer ysgolion lleol yn rheolaidd.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda cholegau eraill mewn partneriaeth strategol â Phrifysgol De Cymru, y mae'n is-gwmni iddo, i gynllunio darpariaeth ar gyfer dilyniant. Mae ei berthynas agos â'r brifysgol wedi galluogi'r coleg i ddatblygu ystod eang o ddewisiadau addysg uwch yn yr ardal leol. Mae graddau sylfaen y coleg wedi gwella cyfle tua 300 o ddysgwyr i gael cyfleoedd hyblyg, sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da ymlaen i addysg uwch.

Mae arweinwyr ym Mhrifysgol De Cymru yn cysylltu'n agos ag arweinwyr y coleg. Mae hyn yn sicrhau bod yr ystyriaeth orau'n cael ei rhoi i ddatblygiadau'r farchnad lafur wrth gynllunio cwricwlwm y coleg. Mae staff y Brifysgol yn ymweld â'r coleg yn rheolaidd fel siaradwyr gwadd i annerch darpar ymgeiswyr, gan gyfoethogi ymwybyddiaeth dysgwyr o gyfleoedd dilyniant. Mae'r bartneriaeth wedi gwella'r adnoddau dysgu sydd ar gael i isadrannau'r coleg hefyd. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg yn mynychu cyrsiau peirianneg awyrennau yn y brifysgol i wella eu dealltwriaeth o theori hedfan.

Ceir partneriaethau cryf â chyflogwyr lleol allweddol, ac mae staff y coleg yn rhagweithiol o ran ennyn diddordeb cyflogwyr sefydledig a chyflogwyr newydd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fentrau bach a chanolig. Mae ymglymiad agos y coleg â thimau chwaraeon lleol yn gwella cyfleoedd ar gyfer dysgwyr mewn chwaraeon.

Mae'r coleg yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol a phartneriaid lleol allweddol i gynorthwyo'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mae protocol cynhwysfawr i rannu gwybodaeth ar waith, ac mae uwch staff y coleg yn cyfarfod yn rheolaidd â phartneriaid i adolygu'r ffordd orau y gallant gynorthwyo'r dysgwyr hyn.

Yn ddiweddar, mae'r coleg hefyd wedi cymryd rhan mewn prosiect partneriaeth cymorth arloesol a thargedig gyda phedwar awdurdod lleol a Gyrfa Cymru i ddarparu ymyrraeth gynnar a dwys ar gyfer y rheiny rhwng 11 a 24 oed sydd fwyaf mewn perygl o fod yn bobl ifanc NACH. Mae'r fenter eisoes wedi helpu dros gant o ddysgwyr i oresgyn rhwystrau a pharhau â'u haddysg ac mae wedi cyfrannu at y gostyngiad yng nghyfradd y bobl ifanc NACH yn yr ardal.

### Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r coleg yn gwneud defnydd effeithiol o'r buddion effeithlonrwydd y mae'n eu hennill trwy ei statws fel is-gwmni i Brifysgol De Cymru. Er enghraifft, mae'n defnyddio systemau a gwasanaethau adnoddau dynol y brifysgol. Mae'n rhannu staff iechyd a diogelwch, a thrwy'r brifysgol, mae wedi lleihau ei gostau yswiriant,

gwasanaethau glanhau a chaffael. Mae'r coleg wedi rhoi sylw da i reoli perfformiad staff. Mae cyfraddau absenoldeb staff oherwydd salwch wedi gostwng dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae systemau rheolaeth ariannol y coleg yn effeithlon ac effeithiol, ac yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru a Phrifysgol De Cymru. Mae rheolwyr yn gofalu eu bod yn cynllunio cyllid o fewn ystod o gyd-destunau damcaniaethol, gan roi hyblygrwydd i'r coleg ymateb yn dda i hapddigwyddiadau annisgwyl. Mae'r tîm cyllid yn monitro cyllid yn agos ac yn cyflwyno adroddiadau cynhwysfawr i gyfarwyddwyr i gefnogi cynllunio strategol ym mhob cyfarfod bwrdd. Mae rheolwyr is-adrannol wedi cael hyfforddiant gwerth chweil mewn cyllid i'w helpu i reoli eu cyllidebau.

Caiff staff gyfleoedd buddiol ar gyfer hyfforddi. Ar hyn o bryd, mae 26 o staff yn cymryd rhan mewn rhaglen newydd i hyrwyddo lefel uchel o ddealltwriaeth o arfer addysgu a dysgu.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda cholegau eraill. Er enghraifft, bu athrawon yn gweithio gyda chydweithwyr o dri choleg arall yn ddiweddar i nodi a rhannu arfer dda a datblygu adnoddau dysgu llythrennedd a rhifedd. Yn ddiweddar, cynhaliodd ddigwyddiad cenedlaethol i alluogi colegau i rannu profiad y cymwysterau Sgiliau Hanfodol diwygiedig. Mae ei bartneriaeth â Phrifysgol De Cymru wedi galluogi rhai o'r staff i fod yn gymrodorion yr Academi Addysg Uwch, lle cânt lawer o gyfleoedd i rannu a dysgu o arfer orau a syniadau mewn sefydliadau eraill.

Mae'r adeilad newydd yn rhoi ystyriaeth dda i ddatblygu cynaliadwy, gyda gwresogi biomas, pŵer solar, cynaeafu dŵr glaw a systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni. Mae pob un o adeiladau'r coleg yn cynnwys offer da ac mae'r coleg wedi llwyddo i ddefnyddio cyllid allanol i ddatblygu ei ystâd, gan gynnwys y cynlluniau diweddar i wella cyfleusterau ar gyfer dysgwyr adeiladu.

Er nad oes gan y coleg strategaeth ystadau integredig, pennwyd costau cynlluniau ar gyfer cynnal adeiladau neu uwchraddio offer yn y dyfodol, ac fe'u rhannwyd ag uwch arweinwyr.

Er ei fod wedi bodloni ei dargedau cyllidebol, mae'r coleg wedi gor-recriwtio gan 10% eleni er mwyn darparu lle ar gyfer yr holl ddysgwyr a oedd eisiau dechrau cyrsiau. Mae wedi ariannu'r lleoedd ychwanegol hyn o'i gronfeydd wrth gefn ei hun.

At ei gilydd, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn ddigonol, ac mae'r coleg yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Adroddiadau Meysydd Dysgu

## Llythrennedd

### Cyd-destun y maes dysgu

Caiff llythrennedd yn y coleg ei addysgu trwy ddosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU a chyn-TGAU, trwy weithdai cymorth i ddysgwyr a chymorth un-i-un.  Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd trwy eu prif raglenni astudio hefyd.

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn asesu cenedlaethol cychwynnol a diagnostig i nodi anghenion medrau dysgwyr.  Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2016-2017 yn dangos bod medrau llythrennedd 87% o ddysgwyr ar lefel 1 neu'n is pan fyddant yn dechrau yn y coleg.

### Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn dilyn cymwysterau medrau llythrennedd ar lefel briodol

A2 Gwneud yn siŵr fod gan bob un o'r dysgwyr dargedau llythrennedd byr a phenodol sy'n berthnasol i'w gallu, y cwrs a'u hanghenion datblygu

A3 Gwneud yn siŵr fod pob un o'r athrawon yn defnyddio deilliannau asesiadau dysgwyr yn effeithiol i gynllunio gwersi sy'n bodloni anghenion medrau llythrennedd pob un o'r dysgwyr

A4 Sefydlu arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer sicrhau ansawdd llythrennedd ar draws y coleg

### Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn:  Digonol

Bu gwelliant o naw pwynt canran yng nghyfradd llwyddiant gyffredinol y coleg ar gyfer Cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru yn 2014-2015, ac mae ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol erbyn hyn, sy'n ei osod yn y trydydd chwartel o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru.  At ei gilydd, mae'r duedd tair blynedd yn dangos gwelliant yn y gyfradd llwyddiant a safle'r coleg.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau asesiadau diagnostig llythrennedd ar ddechrau eu cwrs ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi targedau llythrennedd i'w gwella.  Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn rhai tymor byr ac nid ydynt yn ddigon penodol.  Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn gallu disgrifio'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag at eu cyflawni.

Ar hyn o bryd, dim ond tua hanner y dysgwyr sy'n dechrau yn y coleg â graddau D neu E mewn Saesneg TGAU sy'n ailsefyll eu cymhwyster iaith Saesneg TGAU i wella eu graddau.  Mae lleiafrif y dysgwyr ar gyrsiau lefel 1 a arsylwyd yn dysgu ar

lefel sy'n is na'u hymrestriad cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru neu eu hanghenion medrau unigol. O ganlyniad, mae'r cynnydd a wna'r dysgwyr hyn yn annigonol o ystyried eu mannau cychwyn.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn defnyddio eu medrau siarad a gwrando yn dda i gyfathrebu'n effeithiol yn unigol ac mewn grwpiau, ac mae dysgwyr yn parchu syniadau ei gilydd. Mewn cyrsiau lefel 3, gall mwyafrif y dysgwyr ymestyn eu hatebion a chefnogi eu syniadau ag enghreifftiau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr ar draws pob lefel yn siarad yn hyderus ac maent yn darparu atebion byr, annatblygedig. Mae mwyafrif y dysgwyr ar bob lefel yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar eu hathrawon.

Gall llawer o ddysgwyr frasddarllen yn gywir i gael gwybodaeth, ac mae'r dysgwyr hynny sy'n darllen ar goedd yn gwneud hynny'n hyderus. Mewn rhai gwersi, mae dysgwyr yn defnyddio geiriaduron ac adnoddau addas eraill yn briodol i gefnogi eu dealltwriaeth o eirfa fwy cymhleth. Mae lleiafrif o ddysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol yn dangos sylw gwael i waith a chyflwyniad ysgrifenedig, ac mewn rhai dosbarthiadau llythrennedd, ychydig o waith ysgrifenedig a gwblhawyd eleni. Mae mwyafrif y dysgwyr yn ysgrifennu'n gywir yn unol â'u gallu. Mae mwyafrif y dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn dda. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol mewn gwaith ysgrifenedig ac nid ydynt yn cywiro'r camgymeriadau hyn mewn gwaith dilynol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio'r adnoddau o'r offeryn asesu cychwynnol ar-lein. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda yn y rhan fwyaf o wersi, er bod lleiafrif o ddysgwyr yn oddefgar pan fydd gwersi'n cael eu harwain yn ormodol gan yr athro.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

## Barn: Digonol

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd. Mae'r rhain yn cynnwys Saesneg TGAU, cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru, rhaglenni medrau sylfaenol a sesiynau cymorth â medrau. Nid yw arweinwyr ac athrawon yn ystyried cyflawniad blaenorol dysgwyr unigol yn ddigon cyson wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer eu cynnydd mewn medrau. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni datblygu medrau nad ydynt yn ddigon heriol, ac felly nid ydynt yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn sefydlu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda nhw. Maent yn dangos rheolaeth ystafell ddosbarth effeithiol ac yn hyrwyddo amgylchedd dysgu buddiol yn eu gwersi.

Ym mwyafrif y gwersi galwedigaethol, mae athrawon yn fodelau rôl effeithiol ar gyfer llythrennedd ac maent yn creu profiadau dysgu priodol ar gyfer dysgwyr i gryfhau eu medrau, yn arbennig sillafu ac atalnodi. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig o wersi y ceir cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygu ysgrifennu estynedig. Rhoddir cyfleoedd addas i ddysgwyr ddatblygu medrau darllen mewn gwersi galwedigaethol. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd dysgu, nid yw tasgau darllen yn briodol i lefel gallu'r dysgwyr.

Mewn gwersi Saesneg TGAU, mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i ofynion arholiadau allanol, ac fe geir trefniadau addas i ddysgwyr ymarfer cwestiynau arddull arholiad. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio adnoddau diddorol ar y cyfan, sy’n ennyn diddordeb dysgwyr yn dda.

Mae mwyafrif sesiynau Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd llythrennedd addas i ddysgwyr ddatblygu darllen ac ysgrifennu. Mewn dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, mae llawer o athrawon yn gweithredu fel modelau rôl iaith effeithiol ac yn esbonio terminoleg allweddol yn dda.

Yn gyffredinol, mewn gwersi medrau hanfodol a sylfaenol, mae athrawon yn ennyn diddordeb dysgwyr yn dda mewn gweithgareddau sillafu ac atalnodi. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, ni chaiff gwaith ei addasu’n ddigonol i weddu i ystod y gallu ac nid yw bob amser yn adeiladu ar allu blaenorol dysgwyr.

Ar draws y coleg, mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi effeithiol sy’n cefnogi medrau meddwl dysgwyr ac yn caniatáu cyfleoedd defnyddiol ar gyfer datblygu atebion llafar. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn datblygu medrau siarad a gwrando dysgwyr yn ddigonol. Mae rhai gwersi’n symud yn rhy araf ac nid yw athrawon yn annog dysgwyr i gymryd rhan yn weithredol mewn trafodaethau a gweithgareddau siarad eraill.

Mae gan y coleg bolisi marcio priodol ar gyfer llythrennedd. Fodd bynnag, ni chaiff hwn ei ddefnyddio’n gyson gan athrawon. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth unigol gwerthfawr i ddysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae adborth yn rhy gyffredinol, nid yw’n canolbwyntio ar gywiro camgymeriadau gramadegol ac nid yw’n dangos i ddysgwyr sut gallant wella eu safonau llythrennedd. Nid yw staff addysgu yn defnyddio targedau dysgwyr mewn modd cyson i osod gwaith sy’n briodol o heriol.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth?**

**Barn: Anfoddhaol**

Yn ddiweddar, mae’r coleg wedi diwygio strwythur yr uwch reolwyr ar gyfer medrau. Mae wedi llunio adroddiad hunanasesu medrau a chynllun datblygu ansawdd penodol. Mae’r adroddiad hunanasesu yn ddogfen ddefnyddiol sy’n amlinellu cyd-destun y dysgwyr yn y coleg yn glir iawn. Mae’r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys meysydd priodol i’w gwella.

Mae gan y coleg strategaeth medrau newydd. Mae’r strategaeth hon yn gosod cyfeiriad strategol clir. Fodd bynnag, nid yw’n eglur sut bydd y coleg yn pennu lefel y cymhwyster y bydd y dysgwr yn ei ddilyn mewn perthynas â’i lythrennedd a’i rifedd. Mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd rhai o’r targedau yn y ddogfen hon yn cael eu bodloni o fewn y graddfeydd amser penodedig.

Mae gan y coleg rolau a chyfrifoldebau dynodedig penodol ar gyfer rheoli’r ffordd y caiff medrau eu cyflwyno. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nid yw’n glir o hyd pwy sy’n cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am ansawdd targedau dysgwyr a choladu cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn golygu nad yw’r coleg yn gallu nodi’n ddigon da ble y ceir arfer orau wrth gyflwyno medrau neu i gofnodi a dadansoddi cynnydd dysgwyr o ran datblygu eu medrau o’u mannau cychwyn unigol.

Mae rheolwr craidd dysgu'r coleg a'r pennaeth gwasanaethau lles dysgwyr a'r parth dysgu yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Dangosant ymrwymiad cryf at gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu nodau cymhwyster. Mae gan y cydlynwyr llythrennedd a rhifedd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon ar draws y coleg. Mae ganddynt gynlluniau tra ystyriol i ddatblygu gallu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn eu cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi effeithio ar welliant dysgwyr eto. Mae tiwtoriaid cyrsiau yn gyfrifol am weithio gyda dysgwyr i osod a monitro eu targedau. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn ddigon perthnasol i'r dysgwr unigol, y cwrs astudio y maent yn ei ddilyn neu eu cyrhaeddiad blaenorol. Mae llawer o athrawon yn cynnal asesiad ysgrifenedig defnyddiol ar ddechrau eu cyrsiau ac yn nodi meysydd y mae angen i'w dysgwyr eu datblygu. Fodd bynnag, ni chaiff y meysydd hyn a nodwyd ar gyfer eu gwella eu dwyn ymlaen yn gyson yn unol â chynlluniau dysgu unigol y dysgwyr.

Mae gan y coleg bolisi sy'n amlinellu'r broses i ddysgwyr ailsefyll Saesneg a mathemateg TGAU. Fodd bynnag, ni chaiff y polisi hwn ei gymhwyso'n gyson.

| Rhifedd |
| --- |

## Cyd-destun y maes dysgu

Caiff rhifedd yn y coleg ei addysgu trwy ddosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU a chyn-TGAU, trwy weithdai cymorth i ddysgwyr a chymorth un-i-un. Mae'r coleg yn cynnig medrau sylfaenol oedolion hefyd, na chawsant eu harolygu fel rhan o'r maes dysgu hwn. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd trwy eu prif raglenni astudio hefyd

Mae'r coleg yn defnyddio'r offeryn asesu cenedlaethol cychwynnol a diagnostig i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae canlyniadau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2016-2017 yn dangos 57% o ddysgwyr islaw lefel 1 pan fyddant yn dechrau yn y coleg.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn dilyn cymwysterau medrau rhifedd ar lefel briodol

A2 Gwneud yn siŵr fod gan bob un o'r dysgwyr dargedau rhifedd byr a phenodol sy'n berthnasol i'w gallu, y cwrs a'u hanghenion datblygu

A3 Gwneud yn siŵr fod pob un o'r athrawon yn defnyddio deilliannau asesiadau dysgwyr yn effeithiol i gynllunio gwersi sy'n bodloni anghenion medrau rhifedd pob un o'r dysgwyr

A4 Sefydlu arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer sicrhau ansawdd rhifedd ar draws y coleg

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Digonol

Mae cyfradd llwyddiant y coleg ar gyfer cymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru yn 2014-2015 gyfwerth â'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer Cymru, ac mae'r coleg yn y trydydd chwartel o gymharu â chanlyniadau colegau eraill yng Nghymru. Mae tueddiadau yng nghyfradd llwyddiant a chyfradd cyrhaeddiad cymwysterau cymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru yn dangos cynnydd cyson dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae data nas cyhoeddwyd y coleg ei hun ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod deilliannau Sgiliau Hanfodol Cymru yn debyg i'r rheiny yn y flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y dysgwyr galwedigaethol yn y dosbarthiadau a arsylwyd yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel sy'n briodol i'w hasesiad cychwynnol ac i'w dysgu blaenorol.

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau asesiad diagnostig perthnasol o'u medrau. Defnyddiant yr asesiad hwn i nodi tri tharged dysgu ac maent yn cofnodi'r rhain ar eu cynlluniau dysgu unigol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw targedau llawer o ddysgwyr yn ddigon byr a chraff i alluogi dysgwyr i fynd i'r afael â chamau dysgu bach. Mae hyn yn golygu na all dysgwyr asesu eu cynnydd yn hawdd. Ni allant gysylltu'r targedau hyn â'u dosbarthiadau medrau nac ymarfer y medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol o ran cwblhau eu tasgau a'u gweithgareddau mewn dosbarthiadau medrau. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu medrau newydd. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau llythrennedd ariannol yn dysgu medrau newydd mewn deall cyfraddau llog a chyfrifo adlog. Mae llawer o ddysgwyr yn adolygu ac atgyfnerthu dysgu blaenorol yn dda ac yn dysgu medrau fel cyfrifo rhifiadol yn hyderus. Mewn rhai meysydd dysgu, mae rhai dysgwyr yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gywir yng nghyd-destun eu cwrs. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr mwy abl, yn enwedig mewn dosbarthiadau galwedigaethol, yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu medrau rhifedd o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, mewn llawer o ddosbarthiadau, yn gweithio'n dda mewn parau a gyda'u cyfoedion. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu gwersi, maent yn ymgymryd yn dda â'r tasgau a'r gweithgareddau a osodir iddynt ac yn gweithio'n ddiwyd trwy gydol y wers.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Barn: Digonol

Mae'r coleg yn cynnig ystod o gyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau rhifedd, gan gynnwys cymorth astudio, Sgiliau Hanfodol Cymru, Bagloriaeth Cymru a dosbarthiadau ailsefyll mathemateg TGAU.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes.  Maent yn cynllunio'n dda i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn datblygu eu medrau dros gyfnod. Gwnânt gysylltiadau defnyddiol â dysgu blaenorol, ac mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall cyd-destun eu gwersi.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi amrywiaeth briodol o dasgau a gweithgareddau i ddysgwyr sy'n eu helpu i weithio'n ddiwyd a dangos diddordeb yn eu gwersi.  Fodd bynnag, nid yw athrawon rhoi ystyriaeth ddigonol yn gyson i wahanol lefelau dysgwyr ac yn gweddu eu tasgau yn unol â hynny.

Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i'r cymwysterau y mae dysgwyr yn gweithio tuag atynt ac yn eu helpu i ddeall sut i ennill marciau mewn arholiadau.  Er enghraifft, mewn dosbarth cymhwyso rhif a mathemateg TGAU, gofynnwyd i ddysgwyr ddatrys problemau â chyfrifiannell a phroblemau heb gyfrifiannell.

Mae mwyafrif yr athrawon rhifedd yn cynllunio gwersi diddorol ac mae ganddynt amcanion rhifedd clir ar gyfer gweithgareddau'r wers.  Fodd bynnag, ychydig iawn o athrawon sy'n defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol yn ddigon da i sicrhau bod dysgwyr yn astudio ar lefel sy'n gweddu i'w gallu a'u cyflawniad blaenorol.  Mae hyn yn golygu nad yw cyflymdra'r gwersi yn gweddu'n ddigon da i allu'r dysgwyr mewn tua hanner y gwersi a arsylwyd.  Ychydig iawn o athrawon sy'n rhoi her ddigonol i ddysgwyr mwy abl.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas gadarnhaol, broffesiynol a chefnogol gyda dysgwyr.  Yn ystod gwersi, maent yn monitro pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni eu tasgau a'u gweithgareddau ac yn darparu cymorth parhaus da.  Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi cyfeiriedig i wneud yn siŵr bod pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu â'r wers, i annog medrau meddwl ac asesu gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn defnyddio holi estynedig yn ddigon da i asesu dealltwriaeth dysgwyr o gysyniadau a rhesymu mathemategol.

Mae rhai athrawon yn rhoi sylwadau sy'n briodol o adeiladol i ddysgwyr i'w galluogi i wneud cynnydd da a gwella'u gwaith.  Datblygiad diweddar yw cynllun marcio rhifedd y coleg.  Fodd bynnag, ni chaiff ei ddefnyddio'n gyson ar draws y coleg, ac mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar wella deilliannau dysgwyr.

### Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

### Barn:  Anfoddhaol

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi diwygio strwythur yr uwch reolwyr ar gyfer medrau. Mae wedi llunio adroddiad hunanasesu medrau a chynllun datblygu ansawdd penodol.  Mae'r adroddiad hunanasesu yn ddogfen ddefnyddiol sy'n amlinellu cyd-destun y dysgwyr yn y coleg yn glir iawn.  Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys meysydd priodol i'w gwella.

Mae gan y coleg strategaeth medrau newydd.  Mae'r strategaeth hon yn gosod cyfeiriad strategol clir.  Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut bydd y coleg yn pennu lefel y cymhwyster y bydd y dysgwr yn ei ddilyn mewn perthynas â'i lythrennedd a'i rifedd. Mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd rhai o'r targedau yn y ddogfen hon yn cael eu bodloni o fewn y graddfeydd amser penodedig.

Mae gan y coleg rolau a chyfrifoldebau dynodedig penodol ar gyfer rheoli'r ffordd y caiff medrau eu cyflwyno. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nid yw'n glir o hyd pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am ansawdd targedau dysgwyr a choladu cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn golygu nad yw'r coleg yn gallu nodi'n ddigon da ble y ceir arfer orau wrth gyflwyno medrau neu i gofnodi a dadansoddi cynnydd dysgwyr o ran datblygu eu medrau o'u mannau cychwyn unigol.

Mae rheolwr craidd dysgu'r coleg a'r pennaeth gwasanaethau lles dysgwyr a'r parth dysgu yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Dangosant ymrwymiad cryf i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu nodau cymhwyster. Mae gan y cydlynwyr llythrennedd a rhifedd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon ar draws y coleg. Mae ganddynt gynlluniau tra ystyriol i ddatblygu gallu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn eu cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi effeithio ar welliant dysgwyr eto. Mae tiwtoriaid cyrsiau yn gyfrifol am weithio gyda dysgwyr i osod a monitro eu targedau. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn ddigon perthnasol i'r dysgwr unigol, y cwrs astudio y maent yn ei ddilyn neu eu cyrhaeddiad blaenorol. Mae llawer o athrawon yn cynnal asesiad ysgrifenedig defnyddiol ar ddechrau eu cyrsiau i nodi meysydd y mae angen i'w dysgwyr eu datblygu. Fodd bynnag, ni chaiff y meysydd hyn a nodwyd ar gyfer eu gwella eu dwyn ymlaen yn gyson yn unol â chynlluniau dysgu unigol y dysgwyr.

Mae gan y coleg bolisi sy'n amlinellu'r broses i ddysgwyr ailsefyll Saesneg a mathemateg TGAU. Fodd bynnag, ni chaiff y polisi hwn ei gymhwyso'n gyson.

| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal |
|---|

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnig ystod eang o gyrsiau gofal plant a gofal cymdeithasol o lefel 1 i lefel 3, gan gynnwys llwybr mynediad at broffesiynau iechyd ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion. Mae'n un o'r meysydd dysgu mwy yn y coleg. Mae'r adran hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau Safon Uwch, cyrsiau amser llawn a rhan-amser nad ydynt o fewn cwmpas yr arolygiad hwn o'r maes dysgu.

Mae niferoedd y dysgwyr ar yr holl gyrsiau (ar wahân i raglenni Mynediad) wedi aros yn gyson dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2014-2015, cofrestrodd y maes dysgu 308 o ddysgwyr addysg bellach ac 89 o ddysgwyr addysg uwch.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella'r defnydd o osod targedau i sicrhau bod targedau datblygu medrau realistig a heriol yn cael eu gosod ar gyfer dysgwyr

A2 Sicrhau bod athrawon yn bodloni anghenion ystod lawn y galluoedd y dysgwyr yn eu dosbarthiadau

A3 Gwella'r defnydd o ddata mewn hunanasesu a sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn galluogi i gynnydd gael ei fonitro'n effeithiol

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

At ei gilydd, yn 2014-2015, cwblhaodd dysgwyr eu cymwysterau yn llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw'r cymaryddion cenedlaethol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, ar gyfer cymwysterau sylweddol a'r holl gymwysterau fel ei gilydd, mae'r cyfraddau llwyddiant ar gyfer y maes dysgu yn y ddau chwartel uchaf o gymharu â chyfraddau mewn colegau eraill yng Nghymru. Mae data nas cyhoeddwyd y coleg ei hun ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod cyfraddau llwyddiant ar gyfer prif gymwysterau yn y meysydd dysgu yn dangos gwelliannau o'r flwyddyn flaenorol.

Mae dysgwyr, gan gynnwys y rheiny o ardaloedd difreintiedig, yn ennill graddau da ac mae llawer ohonynt yn rhagori ar eu graddau targed. Mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf yn y coleg ac mae llawer ohonynt yn symud ymlaen o lefel 3 i astudio addysg uwch mewn amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys nyrsio, gwaith cymdeithasol a pharafeddygon.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfathrebu'n hyderus ac yn gweithio'n dda yn annibynnol. Gall mwyafrif o ddysgwyr ddethol gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn fedrus a chyfosod y wybodaeth yn effeithiol i greu darn da o waith annibynnol.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio geirfa berthnasol yn effeithiol. Maent yn cysylltu damcaniaethau cymhleth a gwybodaeth sy'n benodol i'r sector yn dda ac yn cymhwyso'r wybodaeth honno'n ddefnyddiol i'w profiadau galwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gwneud cyfrifiadau mynegai màs y corff yn gywir neu'n ysgrifennu polisïau a gweithdrefnau defnyddiol sy'n angenrheidiol ar gyfer lleoliad gofal, dysgu a datblygiad plentyn.

Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n ymgymryd â lleoliadau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg yn y maes dysgu.

Mae presenoldeb dysgwyr yn dda ar y cyfan. Ar draws y maes dysgu, mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agwedd frwdfrydig iawn at eu hastudiaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac mae ganddynt ffeiliau sy'n drefnus ac wedi'u cyflwyno'n ddestlus.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y maes dysgu. Maent yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u hiechyd, eu diogelwch neu'u lles. Maent yn ymwybodol o'r broses adrodd am bryderon ynghylch diogelu yn y coleg neu pan fyddant ar leoliad.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Barn: Da

Mae'r maes dysgu yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ar bob lefel. Mae dysgwyr yn astudio cymwysterau ychwanegol i ennill medrau sy'n berthnasol i'r sector fel hylendid bwyd a bwyta'n iach.

Ar lefel 2 a lefel 3, mae'r holl ddysgwyr yn datblygu cysylltiadau buddiol ag ystod o gyflogwyr trwy leoliad gwaith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud cysylltiadau perthnasol â phrofiad galwedigaethol dysgwyr ac arfer bresennol y sector.

Mae pob un o'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gyfoes a defnyddiant eirfa alwedigaethol berthnasol yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio ystod eang o ddulliau addysgu i ennyn diddordeb dysgwyr ac mae ganddynt amcanion gwersi sy'n cysylltu'n dda ag asesiadau'r cwrs. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cadw cofnodion unigol o farciau dysgwyr yn dda ac yn cysylltu'n agos â thiwtor y cwrs i fonitro cynnydd. Maent yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer asesiadau allanol ac yn rhoi adborth cywir a buddiol iddynt.

Mae gan bron bob un o'r athrawon broffiliau grwpiau sy'n cynnwys manylion am anghenion dysgwyr, ac mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi sy'n herio dysgwyr yn dda. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau yn effeithiol i brofi gwybodaeth dysgwyr a gwella eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae athrawon yn gosod gweithgareddau nad ydynt yn ymestyn pob dysgwr.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r cynllunio marcio llythrennedd yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun y pwnc galwedigaethol. Mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn gosod targedau i ddatblygu medrau dysgwyr yn ddigon effeithiol.

Mae athrawon yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth da trwy sesiynau tiwtorial a thrwy'r cysylltiadau cryf gyda thimau cymorth ar draws y coleg.

Mae athrawon yn sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn gyfarwydd â threfniadau diogelu yn y coleg a phan fyddant ar leoliad.

Mae'r maes dysgu yn cynnig amgylchedd ffisegol gwych. Mae'n cynnwys digon o le ac offer da. Mae arddangosfeydd wal yn berthnasol a chynhwysol ac yn rhoi synnwyr o hunaniaeth i'r maes. Mae'r amgylchedd ffisegol cywasgedig yn meithrin synnwyr o gymuned ac awyrgylch gofalgar a chynhwysol.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth Gymraeg ffurfiol ar gael yn y flwyddyn bresennol, er bod rhai dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

## Barn: Da

Mae rheolwr y maes dysgu yn darparu arweinyddiaeth glir ac mae'n adnabod ei maes dysgu'n dda. Mae'n cyfathrebu'n dda â'r tîm trwy gyfarfodydd ffurfiol a chyswllt anffurfiol fel ei gilydd. Cynhelir cyfarfodydd cwrs ac adrannol unwaith y tymor ac fe gânt eu cofnodi'n briodol. Mae athrawon y cwrs a staff eraill sydd â chyfrifoldebau penodol yn frwdfrydig ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu gwybodaeth ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.

Mae rheolwyr yn gosod amcanion defnyddiol ar gyfer staff ac yn monitro'r rhain yn rheolaidd. Mae staff yn gwybod eu targedau a gallant ddewis eu meysydd eu hunain i'w gwella. Mae'r maes dysgu'n datblygu cysylltiadau cryf â'r parth dysgu a gwasanaethau myfyrwyr er mwyn darparu cymorth teilwredig gwell ar gyfer dysgwyr.

Mae rheolwr y maes dysgu yn cysylltu'n dda â'r is-bennaeth academaidd. Caiff targedau i wella data cyfraddau llwyddiant eu gosod gan uwch reolwyr a'u hadolygu'n effeithiol ar lefel cwrs.

Mae hunanasesiad y maes dysgu yn nodi meysydd priodol i'w datblygu yn onest. Mae hunanasesu yn defnyddio data perfformiad ond nid yw'r dadansoddiad yn gyfredol ac mae cymariaethau yn ddetholus. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am gynnydd er nad yw hi bob amser yn glir sut caiff y cynnydd hwn ei fonitro. Mae'r cynllun bob amser yn cynnwys targedau campus. Pan na fydd dyddiad targed wedi ei fodloni, nid oes dyddiad neu strategaeth newydd wedi ei gynnwys.

Yng nghyfarfodydd y maes dysgu, mae staff yn trafod cynnydd dysgwyr ac yn dadansoddi a thrafod data a chyflawniad carfanau unigol gyda'i gilydd. Mae rheolwr y maes dysgu'n cyfarfod â rheolwyr o feysydd dysgu eraill hefyd i rannu arfer dda.

Caiff dysgwyr eu hannog i roi sylwadau ar faterion meysydd dysgu, gan gynnwys addysgu a dysgu trwy adolygiadau o gyrsiau, modiwlau ac unedau.

Mae'r maes dysgu'n gweithio'n dda gyda darparwyr gofal lleol, ysgolion, yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol i sicrhau cyfleoedd lleoliadau gwaith priodol ar gyfer dysgwyr.

Mae'r maes dysgu'n cynnwys adnoddau da ac offer modern. Mae dysgwyr yn elwa ar gyfrifiaduron o ansawdd uchel a mynediad i'r rhyngrwyd. Mae rheolwyr yn defnyddio staff yn effeithiol ar draws gwahanol gyrsiau galwedigaethol a lefelau astudio.

| Medrau Byw yn Annibynnol |
|---|

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu medrau byw yn annibynnol yn darparu cyrsiau o lefel cyn-mynediad i lefel 1 i fodloni anghenion dysgwyr ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr â syndrom Down, anableddau corfforol a synhwyraidd ac awtistiaeth.

Mae dysgwyr yn dilyn cyrsiau mewn cynnydd personol, medrau bywyd a chyflogadwyedd ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Mae gan yr adran 56 o ddysgwyr amser llawn ar hyn o bryd.

Nid yw'n briodol cymharu safonau dysgwyr â chyfartaleddau cenedlaethol neu ddadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion dysgwyr.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Sefydlu rhesymwaith ar gyfer y maes dysgu sy'n ystyried ystod lawn anghenion a galluoedd dysgwyr, a'u cyrchfannau yn y dyfodol

A2 Olrhain cyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael y maes dysgu neu'r coleg yn fwy effeithiol

A3 Sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu llwybrau dilyniant clir sy'n galluogi i bob un o'r dysgwyr ddatblygu'r medrau fydd eu hangen arnynt yn eu bywyd yn y dyfodol

A4 Gwella'r broses asesu cychwynnol fel ei bod yn mynd i'r afael ag ystod lawn anghenion a galluoedd dysgwyr

A5 Sicrhau bod targedau'n benodol a mesuradwy ac yn cyfrannu at ddyheadau a nodau tymor hir dysgwyr

A6 Olrhain cynnydd dysgwyr mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol yn fwy effeithiol

A7 Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a datblygu medrau bywyd perthnasol mewn cyd-destunau a gweithgareddau ystyrlon

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Anfoddhaol**

Mae data nas cyhoeddwyd y coleg ei hun ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod bron pob un o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau ar lefelau mynediad 1, 2 a 3 mewn cynnydd personol, a medrau bywyd a byw. Ar lefel 1, llwyddodd bron pob un ohonynt i ennill y diploma mewn medrau bywyd a chyflogadwyedd. Mae bron pob un o'r dysgwyr ar bob cwrs yn ennill unedau ychwanegol o gredydau neu gymwysterau mewn llythrennedd neu rifedd.

Yn 2015-2016, aeth ychydig yn llai na hanner y dysgwyr ymlaen i wneud dysgu uwch yn y maes dysgu. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr yn unig a aeth ymlaen i ddilyn cyrsiau prif ffrwd. Nid oedd bron i 20% o'r dysgwyr a adawodd y maes dysgu yn 2015-2016 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar ôl cwblhau eu cwrs.

Mae gan y coleg drefniadau priodol ar gyfer yr asesiad cychwynnol o fedrau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'n olrhain datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr nac yn nodi'r cynnydd a wna dysgwyr dros gyfnod yn ddigon da. Yn ychwanegol, nid yw prosesau asesu cychwynnol yn cofnodi ystod eang anghenion a galluoedd dysgwyr yn effeithiol. Nid yw targedau dysgwyr ar eu rhaglenni dysgu personol yn ddigon penodol i olrhain camau cynnydd bach. Yn benodol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau dysgwyr mewn meysydd fel cyfathrebu, medrau cymdeithasol neu fyw yn annibynnol. O ganlyniad, ni all rheolwyr arfarnu'r cynnydd a wna dysgwyr mewn perthynas â'u mannau cychwyn neu'u nodau tymor hir ar gyfer y dyfodol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymarfer eu medrau ysgrifennu yn unol â'u gallu, yn ôl gofynion y cymhwyster. Mae mwyafrif y dysgwyr mwy abl yn ysgrifennu brawddegau byrion gan ddefnyddio atalnodi a sillafu cywir i fynegi ystyr. Fodd bynnag, mae lleiafrif y dysgwyr hyn yn meddu ar fedrau cyflwyno gwael ac nid yw eu medrau ysgrifennu estynedig wedi eu datblygu'n ddigonol. Nid yw dysgwyr llai abl yn gallu ffurfio llythrennau a geiriau'n dda, ac maent yn mynegi eu hunain trwy ystod gyfyngedig iawn o eirfa.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymarfer eu medrau rhifedd yng nghyd-destun unedau cymhwyster. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau lefel mynediad yn dangos ymwybyddiaeth o faint a mesur, yn ymarfer eu gallu i drefnu a didoli gwrthrychau, ac yn dangos adnabyddiaeth o ddarnau arian. Mae dysgwyr mwy abl yn datblygu eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chyllidebu ar gyfer y cartref, a rheolaeth ariannol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd a gaiff dysgwyr i gymhwyso a datblygu'r dysgu hwn mewn cyd-destunau ymarferol sy'n berthnasol iddyn nhw.

At ei gilydd, mae'r ffocws ar ddeilliannau i fodloni gofynion cymwysterau yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas y coleg. Mae mwyafrif y dysgwyr yn llwyddo i ddal ati i ganolbwyntio'n dda ac yn cwblhau tasgau a osodir yn ôl yr angen. Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cynorthwyo ei gilydd â'u dysgu. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn oddefgar iawn yn eu dysgu ac nid ydynt yn dangos rhyw lawer o ddiddordeb na brwdfrydedd ar gyfer y tasgau a osodir.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt broblem. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth addas o fwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymarfer corff ac yn siarad yn frwdfrydig am yr effaith gadarnhaol a gaiff hyn ar eu lles.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Anfoddhaol**

Mae'r maes dysgu yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr ennill ymwybyddiaeth o ystod o destunau perthnasol trwy unedau credydau sydd wedi eu cynnwys o fewn eu cymwysterau. Yn ddiweddar, mae wedi ychwanegu nifer o weithgareddau cyfoethogi er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu mwy ymarferol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r maes dysgu'n rhoi gormod o bwyslais ar ddilyniant trwy gymwysterau. Nid yw llwybrau'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion dysgwyr, eu lefelau gallu na'u hangen i ddatblygu medrau bywyd trosglwyddadwy. Yn benodol, mae profiad gwaith wedi'i danddatblygu'n sylweddol ac nid yw'r maes dysgu'n cynllunio'n ddigon da ar gyfer addysg ymarferol yn gysylltiedig â gwaith.

O fewn y maes dysgu, mae'r holl athrawon a'r staff cymorth yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol, effeithiol a chefnogol gyda dysgwyr. Mae bron pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad yn dda. Mae rhai athrawon yn defnyddio holi effeithiol a

gweithgareddau gwaith pâr addas i ddatblygu hyder dysgwyr. Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i sicrhau bod dysgwyr yn gweithio'n ddiwyd. Mae rhai athrawon yn darparu adborth priodol ac yn annog dysgwyr yn llwyddiannus i ystyried hyn. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio ystod gyfyngedig o weithgareddau dysgu. O ganlyniad, mae diffyg cyflymdra, her a mwynhad mewn llawer o wersi.

At ei gilydd, mae'r dull o gynllunio o fewn y maes dysgu yn wan ac nid yw'n bodloni anghenion dysgwyr. Mae'n canolbwyntio ar dasgau ailadroddus ar lefel isel nad ydynt yn cymell dysgwyr yn ddigonol. Mae llawer o wersi'n rhoi gormod o bwyslais ar dasgau ysgrifennu nad ydynt yn datblygu ystod lawn medrau llythrennedd, a chyfathrebu llafar dysgwyr yn effeithiol. Mewn llawer o wersi, nid yw athrawon yn rhoi ystyriaeth ddigonol i dargedau personol dysgwyr, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae'r maes dysgu yn deall anghenion gofal a chymorth ei ddysgwyr yn dda. Mae llawer o staff cymorth dysgu yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr, sy'n eu galluogi i gynnal eu ffocws a dangos diddordeb mewn gwersi. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o iechyd a lles mewn gwersi. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu'r ddealltwriaeth hon trwy gymhwyso medrau ymarferol mewn cyd-destunau realistig.

Mae trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr i'r adran yn effeithiol. Mae gan yr holl gyrsiau weithdrefnau ymsefydlu priodol. Fodd bynnag, mae proffiliau athrawon o ddysgwyr yn wan ac nid ydynt yn darparu gwybodaeth berthnasol i gefnogi dysgwyr unigol yn ddigon da.

Mae'r maes dysgu yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol addas. Mae pob un o'r staff yn cynorthwyo dysgwyr i integreiddio i amgylchedd ehangach y coleg yn llwyddiannus. Mae staff a dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd. Mae digon o le yn yr adeiladau ac maent yn darparu amgylchedd tawel, sy'n galluogi pob un o'r dysgwyr i deimlo'n ddiogel.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Anfoddhaol**

Mae pennaeth y maes dysgu yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion cymdeithasol a gofal y dysgwyr yn y maes dysgu. Mae'n sicrhau bod staff a dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn amgylchedd cefnogol a gofalgar. Mae cyfathrebu am faterion o ddydd i ddydd ynghylch lles dysgwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan y coleg cyfan weledigaeth glir ar gyfer y maes dysgu sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion presennol y dysgwyr, neu anghenion y dysgwyr yn y dyfodol.

Mae rolau a chyfrifoldebau yn y maes dysgu wedi eu diffinio'n dda. Fodd bynnag, mae'r amser sydd ar gael i staff ar gyfer gweinyddu, cynllunio a datblygu adnoddau i gefnogi dysgu yn annigonol iddynt gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y tîm addysgu craidd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n ddigonol ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, y cynnydd a wnânt dros gyfnod neu'u cyrchfannau.

Mae hunanasesu o fewn y maes dysgu yn wan. Mae arsylwadau o addysgu yn rhy gadarnhaol ac nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigon da ar safonau gwaith a medrau dysgwyr. Nid ydynt yn nodi targedau clir ar gyfer gwella i athrawon a staff cymorth, neu’r anghenion hyfforddi i gefnogi’r rhain.

Nid yw adroddiad hunanasesu’r maes dysgu yn darparu asesiad cywir o’r cryfderau a’r meysydd i’w datblygu yn y maes dysgu. Nid yw’n rhoi ystyriaeth briodol i ddeilliannau arolygiadau diweddar mewn meysydd dysgu tebyg mewn colegau eraill. Nid yw rheolwyr yn defnyddio ystod ddigonol o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu’r cynnydd a wna dysgwyr yn y maes dysgu. Yn benodol, nid ydynt yn dadansoddi data ar gyrchfannau i lywio cynllunio’r cwricwlwm a rhaglenni dysgu y maes dysgu.

Nid yw cynllun gweithredu’r maes dysgu yn nodi’n ddigon da beth mae angen i’r maes dysgu ei wneud er mwyn gwella deilliannau neu ddarpariaeth ar gyfer ei ddysgwyr. Mae camau gweithredu’n ymwneud yn bennaf â materion gweithdrefnol neu â chynnal safonau presennol y ddarpariaeth. At ei gilydd, mae ansawdd hunanasesu a chynllunio gwelliant yn y maes dysgu yn aneffeithiol.

Mae’r maes dysgu yn gweithio gydag ystod briodol o bartneriaid i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr i’r coleg. Ceir cysylltiadau sefydledig â’r ysgol arbennig leol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyrsiau rhagflas a rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ymglymiad dysgwyr yn y gymuned ehangach trwy brofiad gwaith neu waith gwirfoddol, wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae’r dysgu’n canolbwyntio’n addas ar reoli ei adnoddau yn effeithlon. Mae gan staff gymwysterau priodol ac mae hyfforddiant ar eu cyfer yn bodloni anghenion meddygol a gofal dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, nid yw’n canolbwyntio’n ddigonol ar alluogi athrawon i ddatblygu strategaethau effeithiol ar gyfer dysgu i fodloni ystod lawn anghenion addysgol dysgwyr.

| Adeiladu, Cynllunio a’r Amgylchedd Adeiledig |
|---|

**Cyd-destun y maes dysgu**

Mae cyrsiau adeiladu, cynllunio a’r amgylchedd adeiledig yn cynrychioli tuag 11% o ddarpariaeth y coleg. Cyflwynir cyrsiau adeiladu ar y prif gampws mewn adeiladau arbenigol.

Mae’r ddarpariaeth adeiladu yn cyflwyno ystod o gyrsiau amser llawn a rhan-amser. Yn y flwyddyn bresennol, sef 2016-2017, mae 174 o ddysgwyr amser llawn a 25 o ddysgwyr rhan-amser yn mynychu cyrsiau.

Ar hyn o bryd, mae’r ddarpariaeth adeiladu yn cyflwyno cyrsiau mewn: gwaith brics, gwaith saer ac asiedydd, paentio ac addurno, plastro a medrau adeiladu.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwella’r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau’n llwyddiannus arnynt

A2 Gwella cynllunio, cyflymdra a her sesiynau

A3 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ddatblygu medrau ymarferol dysgwyr a'u gwybodaeth am theori

A4 Datblygu a defnyddio gweithdrefnau gwella ansawdd a monitro cadarn

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Digonol**

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr ar gyrsiau sylweddol (150 neu fwy o oriau dysgu dan arweiniad) wedi gwella o 62% yn 2012-2013 i 79% yn 2014-2015. Mae data nas cyhoeddwyd y coleg ei hun ar gyfer 2015-2016 yn dangos gwelliant parhaus. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau llwyddiant cyhoeddedig islaw cymaryddion cenedlaethol dros y tair blynedd ddiwethaf, sy'n gosod y maes dysgu yn y trydydd neu'r pedwerydd chwartel o gymharu â chyfraddau mewn colegau eraill yng Nghymru. Y gyfradd llwyddiant ar gyfer yr holl gyrsiau adeiladu yn 2014-2015 yw 72%, sydd gryn dipyn islaw'r cymharydd cenedlaethol.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn dangos lefelau priodol o gymhwysedd wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau ymarferol. Mae lleiafrif ohonynt yn dangos safonau da o gymhwysedd ymarferol. Er enghraifft, dangosodd dysgwr plastro gymhwysedd ymarferol cadarn wrth adfer wal ac adeiladodd dysgwr gwaith brics i safon diwydiant. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n datblygu eu medrau ymarferol i safon ddigon uchel neu sy'n gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Mae mwyafrif y dysgwyr yn defnyddio ystod eang o offer llaw yn gywir wrth ymgymryd â thasgau ymarferol.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am theori yn briodol. Yn yr achosion gorau, mae gwaith ysgrifenedig dysgwyr wedi ei gyflwyno'n dda ac mae'n cynnwys ystod werthfawr o waith. Fodd bynnag, mae ffolderi llawer o ddysgwyr yn cynnwys ystod gyfyngedig o waith, ac nid yw'r cynnwys wedi ei gyflwyno'n dda. Yn yr achosion hyn, nid yw dysgwyr yn rhoi sylw digonol i ansawdd darluniau a brasluniau a'r ffordd y maent yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu i gof o sesiynau blaenorol yn dda ac yn datblygu medrau meddwl priodol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol i ddatrys ystod ddefnyddiol o dasgau ymarferol a thasgau theori. Mae mwyafrif y dysgwyr yn ymateb yn dda i gwestiynau'r athro gan roi ymatebion technegol cywir ac ateb yn hyderus.

Mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn glir beth yw eu targedau i wella llythrennedd a rhifedd.

Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i symud ymlaen i'r lefel nesaf neu i raglenni prentisiaeth. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a gaiff dysgwyr i elwa ar brofiad gwaith gwerth chweil. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth yn briodol am ddiwylliant Cymru trwy ymweld â safleoedd treftadaeth.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac mae ganddynt yr hyder i fynd at staff i ofyn am gymorth a chyngor. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn dangos lefelau priodol o

fedrau cyfathrebu ac maent wedi eu cymell ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u cwrs. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gydag athrawon a'u cyfoedion ac yn ymddwyn yn dda yn ystod sesiynau. Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth briodol o iechyd a diogelwch yn y diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, mae rhai dysgwyr yn cyrraedd yn hwyr.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Digonol**

Mae'r maes dysgu'n cynnig ystod eang o gyrsiau ar draws ystod o fasnachau i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae rhaglen Erasmus yn cynnig profiad sylweddol i leiafrif o ddysgwyr sy'n teithio i'r Almaen gael profiad gwaith a diwylliant a diwydiant mewn gwlad arall. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n elwa ar gyfleoedd profiad gwaith lleol i wella medrau a dysgu ymhellach.

Mae llawer o athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc a phrofiad cyfoes a da. Mae lleiafrif o athrawon yn cynllunio eu sesiynau'n dda gyda nodau ac amcanion clir, ac maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau a gweithgareddau i gynnal diddordeb dysgwyr. Yn y sesiynau hyn, mae'r cyflymdra a'r her yn ddigonol i ennyn diddordeb dysgwyr trwy gydol y sesiwn. Fodd bynnag, ym mwyafrif y sesiynau, mae'r dysgu'n symud yn rhy araf ac mae gormod o ddysgwyr yn oddefgar am gyfnodau estynedig. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn nac yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae athrawon yn datblygu medrau rhifedd dysgwyr yn briodol mewn sesiynau ymarferol ac wrth ymgymryd â thasgau mewn sesiynau theori. Fodd bynnag, nid yw arferion addysgu yn hyrwyddo a datblygu medrau llythrennedd dysgwyr yn systematig a phrin yw'r athrawon sy'n defnyddio cynllun marcio llythrennedd y coleg i helpu dysgwyr i gywiro camgymeriadau llythrennedd cyffredin.

Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio technegau holi priodol i brofi dealltwriaeth a gwybodaeth dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol ac nid ydynt bob amser yn rhoi digon o amser i ddysgwyr ymateb i gwestiynau.

Mewn lleiafrif o sesiynau, mae dysgwyr yn cyrraedd yn hwyr. Yn yr achosion hyn, nid yw mwyafrif yr athrawon yn herio dysgwyr yn briodol.

Mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddiwylliant Cymru trwy ymweld â safleoedd treftadaeth. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a ddarperir gan athrawon i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn gweithgareddau theori ac ymarferol. Ychydig iawn o athrawon sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg neu'n defnyddio adnoddau dwyieithog.

Mae rhai athrawon yn esbonio pwysigrwydd ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau yn briodol. Mae llawer o athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r maes dysgu yn rhoi cyfle i ddysgwyr elwa ar gyfleusterau o safon uchel. Mae gweithdai ymarferol yn helaeth ac yn cynnwys ystod eang o offer llaw a pheiriannau priodol i fodloni anghenion dysgwyr.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Digonol**

Mae rheolaeth y maes dysgu adeiladu wedi'i diffinio'n dda ac mae llinellau cyfrifoldeb clir. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn darparu arweinyddiaeth gryfach sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y maes dysgu. Mae rheolwyr yn defnyddio data perfformiad yn briodol i fesur y rhan fwyaf o agweddau ar gyflwyno'r cwrs yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol. Fodd bynnag, nid yw targedau a chamau ar gyfer gwella bob amser yn ddigon craff, gydag amserlen glir ar gyfer gweithredu.

Ceir cyfathrebu clir ar draws y maes dysgu, ac fe gaiff ystod eang o wybodaeth ei rhannu'n rheolaidd rhwng rheolwyr ac athrawon. Mae rheolwyr a staff yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu agweddau allweddol ar y maes dysgu a chynnydd y maes dysgu yn unol â thargedau. O ganlyniad, mae cyfarfodydd wedi bod yn effeithiol o ran cyfrannu at wella deilliannau dysgwyr.

Cryfhawyd trefniadau'r maes dysgu ar gyfer adolygu perfformiad staff. Mae rheolwyr yn defnyddio proses arsylwi addysgu a dysgu'r coleg yn briodol i adolygu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o berfformiad staff. Maent yn nodi staff ag anghenion datblygu addysgu a dysgu a gall y staff hyn elwa ar gyfleoedd hyfforddi addas. Mae'r datblygiad proffesiynol parhaus hwn yn dechrau bod yn effeithiol o ran datblygu medrau addysgu, yn enwedig ar gyfer athrawon a benodwyd yn ddiweddar.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn cynnwys ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad y maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn ddigon trylwyr o ran rhoi disgrifiad cywir o berfformiad y maes dysgu. Mae cynnwys yr adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n nodi meysydd i'w datblygu yn ddigon clir.

At ei gilydd, mae'r maes dysgu yn gweithio'n briodol gydag ystod ddefnyddiol o gyflogwyr a darparwyr dysgu yn y gwaith, er nad oes digon o ddysgwyr yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith lleol defnyddiol.

Caiff adnoddau'r maes dysgu eu rheoli'n effeithiol a gall athrawon a dysgwyr ddefnyddio'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Mae'r maes dysgu'n elwa ar berthnasoedd gwerth chweil gyda gweithgynhyrchwyr cynnyrch adeiladu i gael at ddeunyddiau am brisiau gostyngol. Caiff athrawon a staff cymorth eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion dysgwyr.

| Cyrsiau Safon Uwch |
| --- |

**Cyd-destun y maes dysgu**

Daeth y coleg yn ddarparwr trydyddol ar gyfer ardal Merthyr Tudful yn 2013. Mae'n cynnig dewis o 30 o bynciau Safon Uwch i ddysgwyr, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau ym mhrif adeilad y coleg. Cyflwynir rhai ohonynt yn hen neuadd y dref a adnewyddwyd yng nghanol y dref, sef The Redhouse.

Mae tua 420 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar raglenni UG a Safon Uwch ar hyn o bryd. Gofyniad mynediad y coleg ar gyfer cyrsiau Safon Uwch yw pum cymhwyster TGAU, gradd C, ac mae gan rai pynciau ofynion ychydig yn uwch mewn cyrsiau TGAU penodol.

Daw llawer o ddysgwyr y coleg o ardaloedd difreintiedig. Rhaid i lawer o'r rhain oresgyn rhwystrau rhag dysgu er mwyn gwneud cynnydd mewn addysg. Yn 2015-2016, roedd tua chwarter o ddysgwyr Safon Uwch yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Llwyddodd bron pob un o'r rhain i gwblhau eu cyrsiau.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwella cyfraddau llwyddiant ar gyrsiau UG ac A2

A2 Gwneud yn siŵr bod athrawon yn herio dysgwyr â thargedau dysgu tymor byr ymestynnol ar gyfer gwella a graddau targed ar gyfer arholiadau Safon Uwch

A3 Gwella'r system ansawdd a hunanarfarnu ar gyfer cyrsiau Safon Uwch er mwyn i reolwyr allu monitro ac olrhain perfformiad a gwelliant mewn Safon Uwch yn effeithiol

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Digonol**

Yn y cyfnod 2013-2014 i 2014-2015, mae'r cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus (dysgwyr sy'n cwblhau'r cwrs ac yn llwyddo yn eu harholiadau) ar gyfer dysgwyr Safon Uwch wedi gwella'n fawr, er eu bod yn parhau i fod islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae data nas cyhoeddwyd a ddarparwyd gan y coleg ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod y duedd hon o welliant wedi parhau. Mae dysgwyr Safon Uwch sy'n cwblhau eu rhaglenni yn llwyddo yn eu harholiadau ar gyfraddau da ac yn ennill graddau da.

Ni chaiff y gyfradd llwyddiant gyffredinol ar gyfer dysgwyr Safon Uwch ei hailadrodd yn gyson ar draws cyrsiau Safon Uwch. Er bod rhai cyrsiau oedd â niferoedd sylweddol o ddysgwyr yn 2015-2016 wedi sicrhau cyfraddau llwyddiant o uwchlaw 90%, roedd cyfraddau llwyddiant rhai cyrsiau rhwng 50-70%.

Mewn rhai achosion, nid yw cyfraddau cwblhau neu gyfraddau cyrhaeddiad yn ddigon da. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y camau y mae'r coleg wedi eu cymryd yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r rhain.

Daw cyfran uchel o ddysgwyr ar gyrsiau Safon Uwch o ardaloedd difreintiedig. Yn 2015-2016, roedd tua chwarter o ddysgwyr Safon Uwch yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Llwyddodd bron pob un o'r rhain i gwblhau eu cyrsiau. Mae gan lawer o ddysgwyr Safon Uwch broffil o ganlyniadau TGAU cryf, ond wrth iddynt ddechrau, mae medrau llythrennedd a rhifedd lleiafrif ohonynt islaw'r rheiny sydd eu hangen i wneud y cynnydd gorau yn eu cyrsiau Safon Uwch.

Mae llawer o ddysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r amcanion dysgu y maent yn gweithio tuag atynt ac maent yn deall y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at dargedau. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn ymwybodol o'r medrau y mae angen iddynt ei datblygu er mwyn gwella graddau a chyflawniad. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn y dosbarth, er nad yw dysgwyr mwy abl yn cael eu herio'n ddigonol mewn rhai gwersi. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos amgyffrediad cadarn o'u maes pwnc, gan ddefnyddio termau ac iaith dechnegol yn huawdl i drafod eu pynciau. Er enghraifft, yn y gyfraith, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn dda a gallant amlinellu astudiaethau achos a goblygiadau ar rôl y rheithgor. Fodd bynnag, at ei gilydd, cyfyngedig yw medrau llythrennedd rhai dysgwyr ac maent yn aml yn gwneud camgymeriadau sillafu mewn tasgau ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau. Mae ffeiliau'n drefnus ac yn adlewyrchu'r ffaith fod bron pob un o'r dysgwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i fynd ymlaen i addysg uwch a gwnânt waith ymchwil defnyddiol ar ddewisiadau dilyniant addysg uwch fel rhan o'u rhaglen diwtorial. Mae cyfran dda o ddysgwyr yn mynd ymlaen i brifysgol.

Prin yw'r dysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi. Mae lleiafrif o ystafelloedd addysgu'n cynnwys geiriau Cymraeg allweddol ond prin yw'r posteri a'r arddangosfeydd sy'n ddwyieithog.

Mae dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd yn y dosbarth ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda mewn tasgau grŵp. Mae presenoldeb yn dda. Mae dysgwyr yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith ac yn cymryd rhan yn dda mewn trafodaethau grŵp. Maent yn mwynhau eu gwaith ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn parau a grwpiau, gan gynorthwyo ei gilydd yn dda wrth ymgymryd â thasgau. Maent yn adolygu ac arfarnu gwaith ei gilydd ac yn cynnig awgrymiadau adeiladol i'w cyfoedion ar sut gallant wella. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac maent wedi eu cymell i lwyddo.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o dros 30 o gyrsiau Safon Uwch ochr yn ochr â chyrsiau BTEC. Gall dysgwyr astudio rhaglenni sy'n cynnwys y ddau fath o gymhwyster i helpu i gyflawni eu dyheadau gyrfa. Bu'r coleg yn ymgynghori ag ysgolion a chyflogwyr lleol a darpar ddysgwyr yn effeithiol wrth benderfynu pa gyrsiau Safon Uwch i'w cynnig. Er enghraifft, mae'r cwrs electroneg Safon Uwch yn gwrs sefydledig erbyn hyn, sy'n mynd i'r afael ag anghenion medrau o fewn cwmnïau peirianneg lleol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon Safon Uwch yn dangos gwybodaeth a brwdfrydedd cryf dros eu pynciau. Mae llawer ohonynt yn cynllunio gwersi'n ofalus ac yn defnyddio ystod ysgogol o weithgareddau difyr er mwyn cymell dysgwyr. Er enghraifft, mae athrawon cemeg yn trefnu cyfres ddilyniadol o weithgareddau ar gyfer myfyrwyr, sy'n cynnwys arsylwi ymatebion, trafodaethau, cyfrifiadau a chrynodeb o'r pwyntiau dysgu allweddol.

Caiff y rhan fwyaf o wersi eu cynllunio mewn ffordd sy’n annog dysgwyr i ddatblygu medrau ymchwilio ac arfarnu sy’n eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o holi datblygiadol i gynorthwyo dysgwyr trwy brofi dealltwriaeth ac annog rhesymu dyfnach. Mae athrawon y celfyddydau gweledol yn meithrin hyder dysgwyr i arbrofi. Mae hyn yn gwella ystod eu medrau creadigol ac yn arwain at awyrgylch bywiog mewn ystafelloedd dosbarth. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o symbyliadau i annog meddwl a thrafod beirniadol ymhlith eu dysgwyr. Mae hyn yn datblygu eu medrau dadansoddol a chyfathrebu lefel uwch. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, mae graddau’r her yn gyfyngedig, ac nid yw athrawon yn ymestyn dysgwyr mwy abl. Yn y gwersi hyn, mae’r gweithgareddau dysgu yn aml yn symud yn rhy araf.

Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd ac yn darparu adborth defnyddiol sy’n rhoi gwybod i ddysgwyr am yr hyn y gallant ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae’r marcio mewn rhai pynciau yn anghyson, ac yn darparu adborth cyfyngedig.

Ar draws pynciau Safon Uwch, ceir systemau ar gyfer cofnodi sgorau asesu dysgwyr a monitro cynnydd. Mae ansawdd y rhain yn amrywio gormod. Mae athrawon yn gosod graddau targed ar gyfer pob dysgwr, ac mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o’r targedau hyn a’u graddau gweithio presennol. Fodd bynnag, ni chaiff cyflawniadau blaenorol dysgwyr eu defnyddio’n gyson i helpu i osod graddau targed sy’n ddigon dyheadol. Nid yw athrawon Safon Uwch yn gyson yn y defnydd a wnânt o ganllawiau marcio’r coleg ar gyfer llythrennedd. O ganlyniad, mae rhai dysgwyr yn dangos gwendidau mewn sillafu.

Mae’r coleg yn darparu ystod fuddiol o weithgareddau cyfoethogi allgyrsiol i gynorthwyo dysgwyr â’u dyheadau gyrfa. Er enghraifft, mae’r ‘clwb gwych’ yn darparu gweithgareddau ar gyfer dysgwyr yn y dyniaethau, ac mewn pynciau gwyddoniaeth, peirianneg technoleg a mathemateg (STEM). Gall dysgwyr sy’n dymuno dilyn gyrfaoedd mewn gofal iechyd gymryd rhan yn yr academi gofal iechyd. Mae’r coleg yn cymryd rhan yn rhwydwaith rhanbarthol Seren ar gyfer dysgwyr Safon Uwch mwy abl. Mae athrawon STEM yn darparu dosbarthiadau wythnosol ychwanegol gyda’r nos i roi cymorth â phynciau ar gyfer dysgwyr.

Mewn rhai gwersi, mae athrawon yn defnyddio testun pwnc perthnasol i archwilio diwylliant a threftadaeth ehangach Cymru. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth UG, mae dysgwyr yn archwilio effaith dad-ddiwydiannu ar ranbarthau creu dur Cymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o wersi’n cyfeirio at y dimensiwn Cymreig o gwbl. Ychydig iawn o athrawon Safon Uwch sy’n datblygu medrau Cymraeg dysgwyr mewn gwersi.

Mae bron pob un o’r dysgwyr Safon Uwch yn ymgymryd yn dda â’r her dinasyddiaeth fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, gan ymchwilio a chreu deunydd ar destunau fel sut i integreiddio ffoaduriaid mudol mewn cymunedau lleol.

Mae bron pob un o’r athrawon wedi sefydlu perthnasoedd gweithio proffesiynol cefnogol gyda dysgwyr. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnwys adnoddau da ac maent yn cynnig amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

## Barn: Da

Ers i'r coleg ddod yn sefydliad trydyddol yn 2013, mae wedi gwneud cynnydd cadarn o ran sefydlu a datblygu ei ddarpariaeth Safon Uwch. Mae'r coleg yn ymgorffori cyrsiau Safon Uwch o fewn meysydd cwricwlwm yn seiliedig ar bynciau, o'r enw isadrannau, ac mae hyn o fudd i ddysgwyr sy'n gallu trosglwyddo i gyrsiau galwedigaethol neu'r rheiny sy'n astudio pynciau galwedigaethol ochr yn ochr â phynciau academaidd.

Adolygwyd strwythurau'r coleg yn ddiweddar i gryfhau goruchwyliaeth o welliant mewn Safon Uwch trwy benodi academydd yn is-bennaeth. Caiff yr is-bennaeth ei gynorthwyo gan chwe phennaeth isadran ac mae'r rheolwyr hyn yn cyfarfod yn rheolaidd. Caiff cyfarfodydd eu cofnodi'n dda, ac maent yn creu camau gweithredu sy'n cael eu monitro'n briodol. Mae staff addysgu'n ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod deilliannau dysgwyr.

Mae'r coleg wedi rheoli tanberfformiad staff addysgu yn dda trwy ystod o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso trylwyr, polisi newydd ar ddatblygiad staff a chynllun mentora cyfoedion diweddar i ddatblygu 'addysgu rhagorol'. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddadansoddi effaith y strategaethau hyn ar gyfraddau llwyddiant dysgwyr.

Mae'r coleg wedi cyflwyno sawl gweithdrefn o ansawdd da i wella deilliannau dysgwyr fel y byrddau adolygu ansawdd defnyddiol. Mae'r byrddau hyn yn monitro cynnydd pob dysgwr yn agos ac yn annog athrawon i olrhain perfformiad unigol.

Mae pob isadran sy'n cyflwyno darpariaeth Safon Uwch yn llunio ei hadroddiad hunanasesu ei hun. Fodd bynnag, nid oes gan is-adrannau ddull clir a chyson ar gyfer gwella Safon Uwch. Yn aml, nid yw adroddiadau hunanasesu yn ddigon arfarnol ac mae is-adrannau yn canolbwyntio ar ystod anghyson o setiau data a thargedau. Mae hyn yn rhwystro gallu rheolwyr i fonitro ac olrhain perfformiad a gwelliant cyffredinol mewn Safon Uwch yn y coleg.

Mae rheolwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno cyrsiau Safon Uwch yn defnyddio ymatebion llais y dysgwr yn dda i wella profiadau dysgwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod y coleg yn gwrando arnynt, ac yn gweithredu.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gydag ysgolion uwchradd partner, i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ar ddilyniant dysgwyr ar raglenni Safon Uwch. Mae'r coleg yn rhan o Fwrdd Rheoli Strategol Merthyr Tudful ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol i fonitro cynnydd dysgwyr Blwyddyn 11 a darparu cyfle cynyddol i elwa ar ystod ehangach o ddarpariaeth Safon Uwch.

Mae gan y coleg gysylltiadau datblygedig ag ystod o sefydliadau addysg uwch. Defnyddir y rhain yn dda i helpu i gyfoethogi profiadau dysgwyr, gwella dilyniant i addysg uwch, a chodi dyheadau dysgwyr.

Mae rheolwyr yn defnyddio staff yn effeithlon ac mae pob un o'r staff addysgu yn meddu ar gymwysterau da. Mae'r cyfleusterau arbenigol yn The Redhouse yn annog dysgwyr Safon Uwch sy'n astudio pynciau perfformio i weithio'n greadigol mewn amgylchedd o safon diwydiant.

Gwallt a Harddwch

## Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu gwallt a harddwch yn cyfrif am ryw 8% o ddarpariaeth y coleg.

Mae 150 o ddysgwyr yn astudio therapi gwallt a harddwch ar hyn o bryd. Mae'r coleg yn cyflwyno ystod o gyrsiau amser llawn ar lefel 1, 2 a lefel 3. Ar hyn o bryd, mae'r maes dysgu'n darparu cyrsiau mewn trin gwallt, gwaith barbwr, steilio gwallt ar gyfer priodasau a therapi harddwch.

## Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus arnynt

A2 Gwella prydlondeb dysgwyr

A3 Gwella ansawdd adborth ysgrifenedig ar waith wedi'i farcio

A4 Sicrhau bod athrawon yn ymestyn a herio'r holl ddysgwyr

A5 Gwella hunanasesu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu cryfderau a meysydd i'w gwella'r maes dysgu yn gywir, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio data

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Digonol

Yn 2014-2015, roedd y gyfradd llwyddiant ar gyfer y maes dysgu gryn dipyn islaw cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer cyrsiau sylweddol a phrif gyrsiau fel ei gilydd. Mae data tueddiadau dros y cyfnod o dair blynedd o 2012-2013 i 2014-2015 yn gosod y maes dysgu yn gyson yn chwartel isaf yr holl golegau yng Nghymru ar gyfer cyfraddau llwyddiant mewn cymwysterau sylweddol ac yn y chwarteli is ar gyfer yr holl gymwysterau.

Mae data nas cyhoeddwyd a ddarparwyd gan y coleg ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod cyfraddau llwyddiant wedi gwella ym mwyafrif y cyrsiau. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddiant mewn lleiafrif o gyrsiau wedi disgyn ac nid oes digon o ddysgwyr yn llwyddiannus ar gwrs lefel 1 mewn trin gwallt.

Mae llawer o ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny o gefndiroedd difreintiedig neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn dangos hunanhyder gwell. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol perthnasol yn dda wrth weithio mewn salonau masnachol, yn y coleg ac yn ystod lleoliadau gwaith fel ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfuno medrau llafar, ysgrifenedig ac ymarferol yn dda wrth weithio yn y lleoliadau masnachol hyn.

Mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn mewn gweithgareddau gwerth chweil yn yr ystafell ddosbarth a'r salon. Er enghraifft, mae dysgwyr trin gwallt lefel 3

yn rhoi cymorth defnyddiol i ddysgwyr lefel 1 i greu delwedd gwallt a harddwch. Mae dysgwyr harddwch lefel 3 sy'n ymgymryd â rolau rheolwr salon yn goruchwylio dysgwyr harddwch lefel 2 ar ddyletswyddau derbynfa a dosbarthfa.

Mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiadau medrau cychwynnol a diagnostig ar ddechrau eu cwrs. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu medrau trwy fynychu dosbarthiadau penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cynorthwyo ei gilydd i wella eu medrau. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd digidol yn dda, er enghraifft wrth ddefnyddio cynlluniau dysgu electronig unigol, portffolios ar-lein a'r system gyfrifiadurol ar gyfer bwciadau salon. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn astudio medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel nad yw'n gweddu i'w cyrhaeddiad blaenorol neu ddeilliannau asesiadau cychwynnol, felly ni chânt eu herio'n ddigonol.

Mae rhai dysgwyr yn dilyn rhaglen anachrededig 'cwrdd a chyfarch' i wella eu medrau Cymraeg a'u hymwybyddiaeth ohoni.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o effaith bwyta'n iach a hydradu ac yn cysylltu'r rhain yn dda â phethau fel cyflwr y croen a'r gwallt.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu'n dda, mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer eu dosbarthiadau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau bywyd coleg ac yn cymryd rhan yn dda yng ngweithgareddau'r coleg. Maent yn barchus a chwrtais â chleientiaid ac yn dangos parch at eu cyfoedion a'u hathrawon. Mae rhai dysgwyr yn gweithredu fel llysgenhadon myfyrwyr neu gynrychiolwyr dosbarth. Yn y rolau hyn, mae dysgwyr wedi dechrau gwneud gwelliannau i gyfleusterau ailgylchu yn y salonau.

Mae dysgwyr yn mwynhau gwaith cystadlaethau mewnol yn benodol ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i arddangos eu gwaith mewn arddangosfeydd ac mewn digwyddiadau fel y 'sioe avant garde' ar ddiwedd blwyddyn.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg yn cynnig ystod o gyrsiau priodol o lefel 1 i lefel 3 mewn trin gwallt, lefel 3 mewn gwaith barbwr a lefel 2 a lefel 3 mewn therapi harddwch.

Caiff profiad gwaith ei gynllunio'n dda iawn ar bob lefel ac mae dysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith realistig yn salonau masnachol y coleg a gyda chyflogwyr lleol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu medrau cyflogadwyedd ac mewn rhai achosion, yn arwain at gyflogaeth. Mae rhai dysgwyr yn elwa ar brofiad gwaith Ewropeaidd gwerthfawr yn Yr Almaen lle caiff dysgwyr eu lleoli mewn salonau masnachol.

Mae dysgwyr yn cwblhau asesiadau medrau diagnostig cychwynnol. Yn gyffredinol, mae'r maes dysgu yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd trwy sesiynau sy'n cael eu haddysgu gan diwtoriaid arbenigol sy'n defnyddio adnoddau cyd-destunol yn dda. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gweddu'r cymwysterau medrau y mae dysgwyr yn eu dilyn yn ddigon agos i'w cyrhaeddiad blaenorol na deilliannau eu hasesiadau cychwynnol.

Mae deunyddiau asesu dwyieithog addas cyrff dyfarnu, termau defnyddiol, a gwerslyfrau dosbarthfa gyda therminoleg 'cwrdd a chyfarch' ar gael i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg.

Caiff cyfleoedd i ymestyn gwybodaeth dysgwyr am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu hyrwyddo'n dda yn y maes dysgu a thrwy'r rhaglen diwtorial, unedau galwedigaethol, Bagloriaeth Cymru, menter ailgylchu a'r daith i'r Almaen.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi'n dda ac yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i ennyn diddordeb dysgwyr, a'u cymell. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc a thechnegol gyfoes.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio adnoddau digidol yn effeithiol i hyrwyddo dysgu ac asesu ac olrhain a monitro cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technegau holi yn effeithiol i asesu gwybodaeth. Maent yn rhoi adborth adeiladol defnyddiol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw holi yn cynnig digon o her i ddysgwyr ac mae'r adborth ysgrifenedig yn annigonol i helpu dysgwyr i wella.

Mae staff addysgu yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda trwy ddarparu amgylchedd cynhwysol. Mae dysgwyr ar bob lefel yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo'n ddiogel yn y maes dysgu.

Mae'r maes dysgu yn defnyddio gwerslyfr defnyddiol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos agwedd gadarnhaol at gyflwyniad personol, sy'n adlewyrchu safonau diwydiant.

Mae gan y maes dysgu salonau ag offer da ynddynt ac ystafelloedd hyfforddi theori ag offer arbenigol, cyfoes.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae arweinydd y maes dysgu yn rheoli'r maes dysgu gwallt a harddwch yn dda ac mae'n darparu arweinyddiaeth glir. Mae rheolwyr a staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gynorthwyo dysgwyr a'u helpu i gyflawni eu nodau cymhwyster.

Mae cyfathrebu o fewn y maes dysgu a gyda meysydd eraill y coleg yn effeithiol. Mae arweinydd y maes dysgu'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod eitemau ar yr agenda sy'n cynnwys ffocws clir ar gofrestru, targedau'r cwrs a chyflawniad dysgwyr. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae arweinydd y maes dysgu yn cynnal gwerthusiad blynyddol gyda phob un o'r staff. Defnyddir y system werthuso yn dda i osod targedau ar gyfer staff a nodi anghenion hyfforddi a datblygu. Mae staff yn elwa ar ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol defnyddiol. Mae'r coleg wedi rhoi polisïau ar waith i fynd i'r afael â thanberfformio.

Mae’r coleg wedi rhoi system arsylwi addysgu ar waith yn ddiweddar fel rhan o’r cylch ansawdd.  Caiff hyn ei gefnogi’n dda gan gydlynwyr addysgu a dysgu’r coleg.  Fodd bynnag, nid yw wedi cael ei ymgorffori’n llawn ar draws y maes dysgu eto.

Mae adroddiad hunanasesu’r maes dysgu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw’n ddigon arfarnol.  Nid yw data a gasglwyd ar gyfer y maes dysgu wedi cael ei ddefnyddio’n ddigon cywir i feincnodi ei ddarpariaeth a llywio barnau.  Nid yw’n cynnwys dadansoddi beirniadol.

Mae arweinydd y maes dysgu yn gwybod sut i wella ansawdd y ddarpariaeth yn y maes dysgu.  Mae’r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys targedau mesuradwy i wella cynllunio a chodi lefelau cyrhaeddiad.  Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth o systemau rheoli’r coleg yn ddigon effeithiol i gefnogi’r maes dysgu i ysgogi gwelliant.

Mae arweinydd a staff y maes dysgu yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith gyda cholegau eraill i rannu arfer dda a mentrau newydd fel triniaethau sba ac estyniadau blew amrannau.  Mae arweinydd y maes dysgu’n mynychu grŵp sector gwallt a harddwch Cymru i sicrhau bod y maes dysgu’n dilyn hynt a helynt anghenion y sector, ac yn ymateb iddynt.

Mae’r maes dysgu wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau effeithiol gyda chyflogwyr lleol a chenedlaethol.  Mae staff yn defnyddio’r partneriaethau hyn yn dda i drefnu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer dysgwyr.  Mae staff yn gweithio’n agos ag ysgolion lleol i helpu dysgwyr i gymryd rhan yn y rhaglen ddysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed.

# Atodiad 1


## Boddhad dysgwyr

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf / Strongly Agree | Cytuno / Agree | Anghytuno / Disagree | Anghytuno'n gryf / Strongly disagree | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer o ymatebion / Number of responses | | | | |
| I was given good information by my provider when I was choosing my learning programme. | 189 | 66 | 115 | 5 | 3 | Cefais wybodaeth dda gan fy narparwr pan oeddwn yn dewis fy rhaglen ddysgu. |
| | | 35% | 61% | 3% | 2% | |
| I have been given good advice about what I can do when I have finished my learning programme. | 190 | 51 | 110 | 27 | 2 | Rydw i wedi cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallaf ei wneud pan fyddaf wedi gorffen fy rhaglen ddysgu. |
| | | 27% | 58% | 14% | 1% | |
| My induction has helped me to settle in to my learning programme. | 188 | 67 | 109 | 10 | 2 | Mae fy nghyfnod ymsefydlu wedi helpu i mi ymgynefino yn fy rhaglen ddysgu. |
| | | 36% | 58% | 5% | 1% | |
| I get good personal support from my tutors, trainers or assessors. | 190 | 103 | 82 | 5 | 0 | Rydw i'n cael cymorth personol da gan fy nhiwtoriaid, hyfforddwyr neu aseswyr. |
| | | 54% | 43% | 3% | 0% | |
| There are other effective types of support available for me. | 186 | 52 | 127 | 5 | 2 | Mae mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael i mi. |
| | | 28% | 68% | 3% | 1% | |
| I understand why I was initially assessed at the start of my learning programme. | 190 | 56 | 113 | 20 | 1 | Rydw i'n deall pam y cefais fy asesu ar ddechrau fy rhaglen ddysgu |
| | | 29% | 59% | 11% | 1% | |
| I know what I need to do to improve my literacy and numeracy. | 189 | 54 | 118 | 17 | 0 | Rydw i'n gwybod beth mae angen i mi ei wneud i wella fy llythrennedd a rhifedd. |
| | | 29% | 62% | 9% | 0% | |
| I regularly work with my tutor to set targets for this improvement. | 189 | 50 | 116 | 21 | 2 | Rydw i'n gweithio gyda'm tiwtor yn rheolaidd i osod targedau ar gyfer y gwelliant hwn. |
| | | 26% | 61% | 11% | 1% | |
| The targets I have set with my tutor have helped me to improve. | 189 | 41 | 118 | 25 | 5 | Mae'r targedau rydw i wedi eu gosod gyda'm tiwtor wedi helpu i mi wella. |
| | | 22% | 62% | 13% | 3% | |
| I know how I will be supported in English, Maths and IT. | 190 | 38 | 124 | 27 | 1 | Rydw i'n gwybod sut byddaf yn cael cymorth mewn Saesneg, Mathemateg a TG. |
| | | 20% | 65% | 14% | 1% | |
| Staff give me learning opportunities and support in Welsh and/or English according to my choice. | 186 | 52 | 119 | 15 | 0 | Mae staff yn rhoi cyfleoedd dysgu a chymorth i mi yn Gymraeg a/neu Saesneg fel rydw i'n dewis. |
| | | 28% | 64% | 8% | 0% | |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I can access support for my learning through the medium of Welsh. | 58 | 13 | 34 | 2 | 9 | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cael cymorth ar gyfer fy nysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | | 22% | 59% | 3% | 16% | |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I am able to complete assessments through the medium of Welsh. | 45 | 10 | 27 | 2 | 6 | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cwblhau asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | | 22% | 60% | 4% | 13% | |
| Staff show all learners respect and listen to their views and concerns. | 188 | 83 | 91 | 11 | 3 | Mae staff yn dangos parch at bob un o'r dysgwyr ac yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon. |
| | | 44% | 48% | 6% | 2% | |
| Staff act on the views of learners. | 190 | 69 | 110 | 11 | 0 | Mae staff yn gweithredu yn unol â safbwyntiau dysgwyr. |
| | | 36% | 58% | 6% | 0% | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds. | 187 | 75<br>40% | 104<br>56% | 8<br>4% | 0<br>0% | Mae staff yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |
| Learners show respect and support one another well. | 189 | 67<br>35% | 107<br>57% | 14<br>7% | 1<br>1% | Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. |
| Staff help me to learn and to make progress. | 188 | 80<br>43% | 105<br>56% | 3<br>2% | 0<br>0% | Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd. |
| When required, I have access to good quality work placements. | 179 | 45<br>25% | 116<br>65% | 14<br>8% | 4<br>2% | Pan fydd angen, gallaf fanteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da. |
| I feel safe and free from harassment in my place of learning. | 187 | 89<br>48% | 87<br>47% | 8<br>4% | 3<br>2% | Rydw i'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn fy lleoliad dysgu. |
| I enjoy my learning. | 189 | 73<br>39% | 106<br>56% | 8<br>4% | 2<br>1% | Rydw i'n mwynhau fy nysgu. |
| Staff use good quality learning materials. | 186 | 74<br>40% | 103<br>55% | 8<br>4% | 1<br>1% | Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da. |
| My teachers have good knowledge of their subject. | 188 | 112<br>60% | 76<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae gan fy athrawon wybodaeth dda am eu pwnc. |
| I have access to enough books and equipment, including computers, to do my work. | 189 | 96<br>51% | 88<br>47% | 5<br>3% | 0<br>0% | Mae digon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, ar gael i mi wneud fy ngwaith. |
| Staff give me useful feedback on how I can improve my work. | 188 | 83<br>44% | 99<br>53% | 5<br>3% | 1<br>1% | Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut gallaf i wella fy ngwaith. |
| My learning will help me to achieve my goals. | 187 | 82<br>44% | 98<br>52% | 6<br>3% | 1<br>1% | Bydd fy nysgu yn helpu i mi gyflawni fy nodau. |
| Taking part in this learning programme has helped me to improve my life skills. | 187 | 63<br>34% | 108<br>58% | 15<br>8% | 1<br>1% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd. |
| Taking part in this learning programme has helped me to become involved in my community. | 184 | 40<br>22% | 108<br>59% | 29<br>16% | 7<br>4% | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned. |
| My learning has helped improve my attitudes to keeping healthy and safe. | 187 | 54<br>29% | 108<br>58% | 18<br>10% | 7<br>4% | Mae fy nysgu wedi helpu i mi wella fy agweddau at gadw'n iach a diogel. |
| I would recommend this learning provider to other people. | 188 | 85<br>45% | 98<br>52% | 2<br>1% | 3<br>2% | Byddwn yn argymell y darparwr dysgu hwn i bobl eraill. |

# Learner Questionnaire / Holiadur Dysgwyr

**All Gender, All FT/PT, All Ages**




| | |
|---|---|
| I was given good information by my provider when I was choosing my learning programme. | Cefais wybodaeth dda gan fy narparwr pan oeddwn yn dewis fy rhaglen ddysgu. |
| I have been given good advice about what I can do when I have finished my learning programme. | Rydw i wedi cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallaf ei wneud pan fyddaf wedi gorffen fy rhaglen ddysgu. |
| My induction has helped me to settle in to my learning programme. | Mae fy nghyfnod ymsefydlu wedi helpu i mi ymgynefino yn fy rhaglen ddysgu. |
| I get good personal support from my tutors, trainers or assessors. | Rydw i'n cael cymorth personol da gan fy nhiwtoriaid, hyfforddwyr neu aseswyr. |
| There are other effective types of support available for me. | Mae mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael i mi. |
| I understand why I was initially assessed at the start of my learning programme. | Rydw i'n deall pam y cefais fy asesu ar ddechrau fy rhaglen ddysgu |
| I know what I need to do to improve my literacy and numeracy. | Rydw i'n gwybod beth mae angen i mi ei wneud i wella fy llythrennedd a rhifedd. |
| I regularly work with my tutor to set targets for this improvement. | Rydw i'n gweithio gyda'm tiwtor yn rheolaidd i osod targedau ar gyfer y gwelliant hwn. |
| The targets I have set with my tutor have helped me to improve. | Mae'r targedau rydw i wedi eu gosod gyda'm tiwtor wedi helpu i mi wella. |
| I know how I will be supported in English, Maths and IT. | Rydw i'n gwybod sut byddaf yn cael cymorth mewn Saesneg, Mathemateg a TG. |
| Staff give me learning opportunities and support in Welsh and/or English according to my choice. | Mae staff yn rhoi cyfleoedd dysgu a chymorth i mi yn Gymraeg a/neu Saesneg fel rydw i'n dewis. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I can access support for my learning through the medium of Welsh. | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cael cymorth ar gyfer fy nysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| (Welsh speaking learners only) Should I wish to do so, I am able to complete assessments through the medium of Welsh. | (Dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn unig) Pe bawn i'n dymuno gwneud hynny, rydw i'n gallu cwblhau asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Staff show all learners respect and listen to their views and concerns. | Mae staff yn dangos parch at bob un o'r dysgwyr ac yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon. |
| Staff act on the views of learners. | Mae staff yn gweithredu yn unol â safbwyntiau dysgwyr. |
| Staff help me to understand and to respect people from different backgrounds. | Mae staff yn fy helpu i ddeall a pharchu pobl o wahanol gefndiroedd. |
| Learners show respect and support one another well. | Mae dysgwyr yn dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. |
| Staff help me to learn and to make progress. | Mae staff yn helpu i mi ddysgu a gwneud cynnydd. |
| When required, I have access to good quality work placements. | Pan fydd angen, gallaf fanteisio ar leoliadau gwaith o ansawdd da. |

| | |
|---|---|
| I feel safe and free from harassment in my place of learning. | Rydw i'n teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn fy lleoliad dysgu. |
| I enjoy my learning. | Rydw i'n mwynhau fy nysgu. |
| Staff use good quality learning materials. | Mae staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da. |
| My teachers have good knowledge of their subject. | Mae gan fy athrawon wybodaeth dda am eu pwnc. |
| I have access to enough books and equipment, including computers, to do my work. | Mae digon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, ar gael i mi wneud fy ngwaith. |
| Staff give me useful feedback on how I can improve my work. | Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i mi ar sut gallaf i wella fy ngwaith. |
| My learning will help me to achieve my goals. | Bydd fy nysgu yn helpu i mi gyflawni fy nodau. |
| Taking part in this learning programme has helped me to improve my life skills. | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi wella fy medrau bywyd. |
| Taking part in this learning programme has helped me to become involved in my community. | Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddysgu hon wedi helpu i mi gymryd rhan yn fy nghymuned. |
| My learning has helped improve my attitudes to keeping healthy and safe. | Mae fy nysgu wedi helpu i mi wella fy agweddau at gadw'n iach a diogel. |
| I would recommend this learning provider to other people. | Byddwn yn argymell y darparwr dysgu hwn i bobl eraill. |

